ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG50323**

Llywodraeth Cymru

Dogfen ymgynghori

# Adrannau wedi'u diweddaru o ganllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

Dyddiad cyhoeddi: 4 Tachwedd 2024
Camau i'w cymryd: ymatebion erbyn 20 Rhagfyr 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn croesawu eich barn ar fân ddiweddariadau a diweddariadau hanfodol arfaethedig i rai adrannau o ganllawiau statudol Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru (Canllawiau’r Fframwaith) ar Hwb.

Cyhoeddwyd canllawiau’r Fframwaith ym mis Ionawr 2020. Cyn iddo gael ei gyhoeddi, bu'n destun ymgynghori eang a helaeth.

Yn 2022, cyflwynwyd proses o ddiweddaru canllawiau’r Fframwaith bob blwyddyn ar Hwb, gan arwain at gyhoeddi'r diweddariadau cyntaf ar-lein ddiwedd mis Ionawr 2023. Ystyrir mai diwedd mis Ionawr yw'r adeg fwyaf manteisiol o'r flwyddyn academaidd i ddiweddaru canllawiau ar y cwricwlwm. Mae'n osgoi dechrau tymor y gwanwyn ac yn golygu bod ysgolion a lleoliadau yn cael gwybodaeth ddiwygiedig mewn da bryd i lywio eu gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol – a wneir fel arfer yn ystod tymor y gwanwyn a dechrau tymor yr haf.

Mae'r diweddariadau arfaethedig ar gyfer mis Ionawr 2025 yn cael eu cyflwyno yn y ddogfen hon. Rydym wedi osgoi cynnwys is-adrannau cyfan o'r canllawiau presennol, gan ganolbwyntio yn hytrach ar y paragraffau hynny sy'n cael eu diwygio. Fodd bynnag, mae dolen wedi’i chynnwys i'r canllawiau cyhoeddedig llawn gyda phob diwygiad arfaethedig.

Mae'r diweddariadau arfaethedig hyn yn cynnwys:

- geiriad i adlewyrchu'r dull o ymdrin â chrynodebau o’r cwricwlwm ysgol a nodir yn yr adran ‘Ymlaen â’r daith’ yng nghanllawiau'r Fframwaith, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024,
- geiriad i gysylltu asesiadau personol yn well â chynnydd ac asesu,
- geiriad i egluro newidiadau deddfwriaethol o fis Medi 2024,
- mân newidiadau i'r adrannau ‘Cynllunio’ch cwricwlwm’ a ‘Trefniadau asesu’ i ddiweddaru’r iaith er mwyn sicrhau cysondeb ag adrannau eraill y canllawiau. Mae hyn yn adlewyrchu lle rydym wedi cyrraedd yn y broses o gyflwyno'r cwricwlwm yn ogystal â chynnwys dolenni a chywiro a gwallau argraffyddol. Mae’n cynnwys newidiadau i'r adran ‘Galluogi dysgu’ i ddangos yn glir y dylid ei ddefnyddio wrth gynllunio, trefnu a gweithredu cwricwlwm sy’n addysgegol briodol i *bob* dysgwr, nid dim ond ein dysgwyr ieuengaf,
- nifer o fân newidiadau yn dilyn adolygiad dwyieithog o’r diffiniadau a ddefnyddir ar draws canllawiau'r Fframwaith.

Bydd y cyfnod adborth hwn yn dod i ben ar 20 Rhagfyr ac, wedi hynny bydd Llywodraeth Cymru, grŵp o ymarferwyr a phartneriaid eraill yn mynd ati i ystyried yr holl ymatebion. Yna, bydd y canllawiau drafft yn cael eu diwygio ar y cyd ag ymarferwyr a phartneriaid mewn ymateb i'r adborth a gafwyd, a bydd yn rhan o ddiweddariad i ganllawiau’r Fframwaith ym mis Ionawr 2025.

## Sut i ymateb

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad os gwelwch yn dda. Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy'r post/e-bost i'r cyfeiriad isod erbyn **20 Rhagfyr 2024** fan bellaf.

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru

Y Gangen Cyflawni Polisi
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Mae canllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar gael yn https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar llyw.cymru/ymgyngoriadau

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Cyflawni Polisi
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru

This document is also available in English: hyperddolen

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (mewn amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:
swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru 2**

**2. Crynodeb o'r ddeddfwriaeth 2**

2.1 Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir 2

2.2 Asesiadau darllen a rhifedd 3

2.3 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 3

**3. Cynllunio eich cwricwlwm 3**

3.1 Cynllunio eich cwricwlwm: cyflwyniad 4

3.2 Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm 4

3.3 Egwyddorion ar gyfer cynllunio'ch cwricwlwm 4

3.4 Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm 5

3.5 Addysgeg 6

3.6 Galluogi dysgu 7

3.7 Ystyriaethau gweithredu ac ymarferol 13

3.8 Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) 14

**4. Trefniadau asesu 16**

4.1 Beth sy'n newid mewn asesu? 16

4.2 Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau Asesu 17

4.3 Cefnogi'r broses o drosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru 19

4.4 Canllawiau ar gyfer pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd 21

**5. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 22**

5.1 Disgrifiadau dysgu 22

5.2 Cynllunio eich cwricwlwm 23

**6. Rhestr o ddiffiniadau'r Cwricwlwm i Gymru 24**

**Cwestiynau'r ymgynghoriad 50**

Dyma’r newidiadau arfaethedig rydym yn gwahodd adborth arnynt.

# Adrannau wedi’u diweddaru o ganllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

## 1. Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru

Rydym yn cynnig mân ddiwygiad i’r adran Cynnydd ac asesu wrth wraidd y gwaith o cynllunio'r cwricwlwm yn y Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru, sy'n rhoi brawddeg ychwanegol ar ddiwedd y paragraff canlynol i gysylltu asesiadau personol yn well â chynnydd ac asesu.

Dyma'r geiriad arfaethedig:

### Cynnydd ac asesu wrth wraidd y gwaith o gynllunio’r cwricwlwm

Mae asesu’n greiddiol i gynllunio cwricwlwm. Ei bwrpas cyffredinol yw cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Dylai asesu ganolbwyntio o hyd ar symud y dysgu yn ei flaen trwy ddeall y dysgu sydd eisoes wedi digwydd, gan ddefnyddio hyn i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio a chefnogi pob dysgwr yn briodol yn ôl ei anghenion dysgu unigol. Ar gyfer darllen a rhifedd, mae'r asesiadau personol wedi'u cynllunio i roi cipolwg ar gynnydd dysgwyr unigol a’r meysydd i'w datblygu rhwng Blynyddoedd 2 a 9.

## 2. Crynodeb o’r ddeddfwriaeth

Rydym yn cynnig mân newidiadau i'r adran Mabwysiadu’r cwricwlwm a’r trefniadau asesu a’u rhoi ar waith o dan Crynodeb o’r ddeddfwriaeth yng nghanllawiau'r Fframwaith, sy'n rhoi brawddeg ragarweiniol ychwanegol ac yn newid y gair 'diwygiad' i 'mireinio' ym mhedwaredd bwled y rhestr. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r dull diweddaraf o gyhoeddi crynodebau o'r cwricwlwm, fel y nodir yn yr adran Ymlaen â'r daith a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024. Lle rydym wedi newid y geiriad o ‘ALN' i 'additional learning Needs (ALN)' yn y Saesneg, dylech nodi bod y geiriad eisoes yn gywir yn y Gymraeg.

Dyma’r geiriad arfaethedig:

### 2.1 Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir

**Mabwysiadu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a'u rhoi ar waith**

Gall crynodebau o’r cwricwlwm gefnogi ysgolion a lleoliadau i ymgysylltu a chyfathrebu â rhieni, gofalwyr a'u cymunedau ehangach. Dylai'r crynodebau cyhoeddedig gynnwys:

- gwybodaeth am sut mae ymarferwyr, dysgwyr, rhieni, gofalwyr a’r gymuned ehangach yn cael eu cynnwys i lywio datblygiad parhaus y cwricwlwm,

- sut mae'r cwricwlwm yn bodloni'r elfennau gofynnol a nodir yn y Fframwaith cenedlaethol hwn, gan ddechrau gyda'r pedwar diben,
- gwybodaeth am sut mae'r lleoliad yn ymdrin â chynnydd dysgwyr a'i drefniadau ar gyfer asesu,
- sut mae’r cwricwlwm yn cael ei adolygu'n barhaus, gan gynnwys y broses ar gyfer casglu adborth gan rieni a diwygio'r cwricwlwm yn barhaus.

Dylid cyhoeddi crynodebau o’r cwricwlwm cyn dechrau’r flwyddyn academaidd.

### 2.2 Asesiadau darllen a rhifedd

Rydym hefyd yn cynnig mân newidiadau i'r adran Asesiadau darllen a rhifedd o dan Crynodeb o’r ddeddfwriaeth yng nghanllawiau’r Fframwaith a fyddai'n egluro newidiadau deddfwriaethol o fis Medi 2024.

Dyma'r geiriad arfaethedig:

#### Asesiadau darllen a rhifedd

Mae gofynion sy’n ymwneud ag asesiadau darllen a rhifedd cenedlaethol ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 2 i 9 yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu Darllen a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru) 2024, sy’n gosod dyletswyddau ar benaethiaid ysgolion a gynhelir i gynnal yr asesiadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013, a ddiddymwyd ym mis Medi 2024 yn amodol ar ddarpariaethau deddfwriaethol trosiannol.

Yn unol â diben ffurfiannol yr asesiadau hyn, nid oes gofyniad i gorff llywodraethu rannu canlyniadau asesiadau darllen a rhifedd ysgol gyda’r awdurdod lleol.

### 2.3 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae'r Fframwaith yn ceisio caniatáu ehangu dysgu, gan sicrhau bod pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial llawn.

## 3. Cynllunio eich cwricwlwm

Rydym yn cynnig mân newidiadau i’r adran Cynllunio eich cwricwlwm yng nghanllawiau'r Fframwaith i sicrhau bod yr iaith yn ystyrlon ac yn gyson ag adrannau eraill o'r fframwaith, bod y cynnwys yn cyd-fynd yn well ag athroniaeth y cwricwlwm, ac i ymdrin â dolenni a gwallau argraffyddol. Lle rydym yn bwriadu newid y geiriad o 'covers' i 'sets out' yn y Saesneg, dylech nodi y byddai'r geiriad yn aros yr un fath yn y Gymraeg.

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r adran Galluogi dysgu isod yn datgan y dylid defnyddio'r canllawiau i gynllunio, trefnu a gweithredu cwricwlwm addysgol briodol ar gyfer pob dysgwr, nid ein dysgwyr ieuengaf yn unig.
Dyma'r geiriad arfaethedig:

## 3.1 Cynllunio eich cwricwlwm: cyflwyniad

Lluniwyd 'Cynllunio eich cwricwlwm' gyda'r nod o'ch helpu i ymdrin â'r cwestiynau hyn yn eich ysgol. Mae'n trafod yr egwyddorion a'r ystyriaethau pwysig a ddylai lywio'r broses honno ac yn rhoi canllawiau ar:

- ddatblygu gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm mewn ysgol,
- datblygu cwricwlwm sy'n gwireddu'r weledigaeth honno.

Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ar sut i fynd ati i ddethol cynnwys cwricwlwm ac asesu dysgwyr er mwyn cefnogi eu cynnydd. Fel gweddill y canllawiau hyn, fe'u lluniwyd ar gyfer ysgolion yn bennaf, ond byddan nhw hefyd yn ddefnyddiol i leoliadau addysgol eraill.

## 3.2 Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm

**Cynllunio a threfnu**

Lle y bo'n ddatblygiadol briodol, dylai dysgwyr allu gosod nodau, gwneud penderfyniadau a monitro canlyniadau interim. Dylen nhw allu myfyrio ac addasu, yn ogystal â rheoli amser, pobl ac adnoddau. Dylen nhw allu gwirio cywirdeb a chreu gwerth o wahanol fathau.

## 3.3 Egwyddorion ar gyfer cynllunio'ch cwricwlwm

**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig**

Mae'n rhaid i gwricwlwm ysgol sicrhau dysgu yn yr holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig o 3 i 16, gan ymgysylltu â'u cysyniadau allweddol mewn modd datblygiadol briodol. Rhaid i ddysgwr hyd at 14 oed gwmpasu'r holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob Maes o'r cwricwlwm. O 14 oed ymlaen, mae angen iddynt gwmpasu rhai o'r datganiadau yn unig ym mhob Maes. Felly, mae'r datganiadau hyn yn rhan hanfodol o gynllun cwricwlwm ysgol. Mae'n rhaid i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i lywio'r broses o ddatblygu cynnwys cwricwlwm, gan eu defnyddio i:

- ddewis profiadau, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn crynhoi 'syniadau mawrion' neu egwyddorion allweddol pob Maes, a dylai'r cynnwys a ddewisir alluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig,
- deall sut y dylai'r dysgu gefnogi cynnydd dysgwyr. Dylai'r dysgu gyfrannu at ddealltwriaeth a defnydd cynyddol soffistigedig o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig,
- galluogi dysgwyr i archwilio testunau a gweithgareddau drwy safbwyntiau gwahanol. Mae modd i'r un testunau gael eu hystyried gan ddysgwyr drwy wahanol ddatganiadau, a dylai hyn ddigwydd, er mwyn i ddysgwyr gael profiad

holistaidd o destun. Mae hyn yn eu helpu i greu cysylltiadau cryfach rhwng cynnwys, disgyblaethau a Meysydd,

- helpu dysgwyr i wneud synnwyr o ystod o *brofiadau*, *gwybodaeth* a *sgiliau*, gan ganolbwyntio ar hanfodion pob Maes. Mae defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig fel sail i'r dysgu yn helpu dysgwyr i feithrin dealltwriaeth resymegol o ystod o wybodaeth, gan greu cysylltiadau rhwng gwahanol ddysgu, yn hytrach na chronni ffeithiau a gweithgareddau annibynnol.

## 3.4 Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm

### Addysg cydberthynas a rhywioldeb: canllawiau statudol

#### Cyflwyniad

Mandadol

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol wrth eu cefnogi i gyflawni'r **pedwar diben** fel rhan o *ddull gweithredu ysgol gyfan*. Mae helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a *thegwch* yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu **amrywiaeth** a hyrwyddo parch.

Mae gan ysgolion a lleoliadau rôl bwysig i'w chwarae wrth greu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthnasau diogel, iach a boddhaus gydol eu bywydau. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn creu cymdeithas sy'n trin pobl eraill â dealltwriaeth ac empathi, beth bynnag fo'u hethnigrwydd, cefndir economaidd-gymdeithasol, anabledd, a *rhyw*, *rhywedd* neu rywioldeb

### Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

#### Cyfranwyr ar gyfer ddarpariaeth addysg a phrofiadau byd gwaith effeithiol

Dylai ysgolion a lleoliadau gael eu cefnogi gan ystod o gyfranwyr ymrwymedig er mwyn gallu gwireddu darpariaeth effeithiol o ran addysg a phrofiadau byd gwaith trwy eu cwricwlwm.

Gall llywodraethwyr, pwyllgorau rheoli neu'r awdurdod lleol (caiff dyletswyddau awdurdodau lleol eu cyflawni mewn rhai achosion gan y consortia rhanbarthol o dan y model cenedlaethol ar gyfer gwaith rhanbarthol) chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau y caiff darpariaeth addysg a phrofiadau byd gwaith ei hadlewyrchu ym mhrosesau cynllunio strategol ac adrodd ysgol neu leoliad. Fel rhan o weledigaeth a datblygiad y

cwricwlwm, dylen nhw ystyried dull gweithredu cynhwysol ac ysgol gyfan o ymdrin ag addysg a phrofiadau byd gwaith.

Mae uwch-arweinwyr yn chwarae rôl bwysig yn natblygiad strategol addysg a phrofiadau byd gwaith. Bydd angen cefnogaeth uwch-arweinwyr i hyrwyddo datblygiad parhaus y cwricwlwm. Dylen nhw wneud y canlynol:

- goruchwylio'r gwaith o ddatblygu rhaglen gydlynol ac effeithiol o ran addysg a phrofiadau byd gwaith ar gyfer pob dysgwr, gyda nodau clir ar gyfer dilyniant drwy'r continwwm dysgu,
- sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer darpariaeth addysg a phrofiadau byd gwaith, gan gynnwys dysgu proffesiynol,
- hwyluso cyfranogiad eang gan randdeiliaid, gan gynnwys staff, dysgwyr, rhieni a gofalwyr, cyflogwyr, Gyrfa Cymru a'r gymuned ehangach,
- cydgysylltu â'r arweinydd addysg a phrofiadau byd gwaith a'i gefnogi i gynnal diweddariadau rheolaidd o ran cynnydd a rhannu deilliannau.

### Dysgu proffesiynol

Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau bod eu staff yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol a pherthnasol er mwyn helpu i integreiddio addysg a phrofiadau byd gwaith yn effeithiol yn eu cwricwlwm.

Anogir ymarferwyr i achub ar gyfleoedd hyfforddiant a gynigir gan gyflogwyr a sefydliadau eraill hefyd, er mwyn eu helpu i ddysgu am ddatblygiadau diweddaraf byd gwaith. Er enghraifft, gallan nhw archwilio adnoddau sydd ar gael ar **Hwb**, yn ogystal ag ymwneud â **Gyrfa Cymru**, partneriaid cefnogi addysg a modiwlau dysgu sydd ar gael ar-lein. Mae cyrsiau ar gael i'r rhai sydd am ennill cymhwyster proffesiynol sy’n gysylltiedig â gyrfa.

## 3.5 Addysgeg

Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ymarferwyr ystyried y dulliau addysgegol y bydd angen iddyn nhw eu defnyddio i gefnogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben.

### Yr egwyddorion addysgegol

Caiff y broses o gynllunio cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr ei hategu gan deuddeg egwyddor addysgegol, sy'n datgan bod dysgu ac addysgu da yn:

- canolbwyntio’n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm,
- rhoi her i’r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel, ond o fewn eu cyrraedd,
- defnyddio cymysgedd o ddulliau sy’n cynnwys addysgu uniongyrchol,
- defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a’r gallu i feddwl mewn modd beirniadol,
- golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb,
- creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu,
- dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu,
- ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd,

- atgyfnerthu yn rheolaidd y sgiliau trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i'w hymarfer,
- annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain,
- hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol,
- hybu cydweithio.

**Prif nodweddion addysgeg lwyddiannus**

Dylai **addysgeg** effeithiol, sy’n *rhoi’r lle canolog i’r dysgwr* ac sydd â’r **deuddeg egwyddor addysgegol** yn sail iddi, fod yn un sy’n ymateb, yn un sy’n ddeinamig ac yn un sydd wedi’i gwreiddio mewn cydberthnasau cryf. Dylai ymarferwyr ddefnyddio’r egwyddorion hyn fel sail i gefnogi dysgwyr i ddatblygu trwy gynnig cyfleoedd cyson ar gyfer y canlynol.

## 3.6 Galluogi dysgu

### Cyflwyniad

Datblygwyd yr adran ‘Galluogi dysgu’ hon yng nghanllawiau’r Fframwaith er mwyn helpu uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau i drefnu, cynllunio, a gweithredu cwricwlwm sy’n addysgegol briodol i bob dysgwr. Gellir ei defnyddio hefyd fel adnodd i helpu gwerthuso ansawdd ac effaith cynllun y cwricwlwm ar gynnydd dysgwyr.

Mae’r canllawiau canlynol yn yr adran hon yn canolbwyntio ar y prif egwyddorion sy’n hollbwysig ar gyfer dysgu holistaidd ac ystyrlon. Yn greiddiol i hyn mae tair ‘elfen’, sydd wedi eu hadnabod yn y canllawiau hyn fel:

- oedolion sy’n galluogi dysgu
- profiadau sy’n ennyn diddordeb
- amgylcheddau effeithiol

Mae’r elfennau hyn yn gysylltiedig â’i gilydd ac yn dibynnu ar ei gilydd, ac mae’r rhyngweithio rhwng y naill a’r llall yn rhan annatod o’r prosesau dysgu ac addysgu ar draws Cwricwlwm i Gymru. Mae’r **deuddeg egwyddor addysgegol** yn berthnasol i gynllunio cwricwlwm, ond dylid talu sylw arbennig hefyd i’r nodweddion allweddol canlynol, sy’n hanfodol yn y cyfnod dysgu hwn:

- arsylwi,
- dysgu dilys a phwrpasol,
- chwarae a dysgu sy’n seiliedig ar chwarae,
- bod y tu allan.

Wrth gynllunio cwricwlwm, mae gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymarferydd o ddatblygiad plentyn neu berson ifanc yn hanfodol. Dylai’r dysgu a’r addysgu ar draws y continwwm 3-16 ystyried a, lle bo’n briodol, gynnwys y meysydd traddodiadol o ddatblygiad plant, a fynegir yma fel y pum llwybr datblygu:

- perthyn,
- cyfathrebu,
- archwilio,
- datblygiad corfforol,

- lles.

Mae’r llwybrau yn rhoi’r lle canolog i’r dysgwr. Maen nhw’n dibynnu ar ei gilydd ac yn gyfwerth o ran cefnogi datblygiad a chynnydd cyffredinol. Bydd y datblygiad o fewn ac ar draws y pum llwybr yn dibynnu ar ansawdd y rhyngweithio rhwng yr ymarferydd a’r dysgwr, ynghyd â’r profiadau a’r amgylcheddau dysgu a gaiff eu creu.

Dylai cwricwlwm priodol ganolbwyntio ar y pum llwybr datblygu wrth i ddysgwyr symud ar hyd y continwwm 3-16.

**Y tair elfen**

Mae’r elfennau a ddisgrifir yn y canllawiau hyn yno i gefnogi pob dysgwr.

Dylai ymarferwyr ddefnyddio’r canllawiau hyn i archwilio’r ‘pam’ (ymarfer sy’n canolbwyntio ar y dysgwr) a ‘sut’ (addysgeg – i weld canllawiau pellach ar addysgeg effeithiol, gweler y dudalen Addysgeg yn yr adran Cynllunio eich cwricwlwm). Er mwyn ysbrydoli a herio plant a phobl ifanc wrth iddyn nhw ddysgu, dylai’r ymarferwyr ganolbwyntio’n benodol ar ansawdd ac effaith y rhyngweithio rhwng y tair elfen allweddol yma.

**Oedolion sy’n galluogi dysgu**

Mae rôl yr oedolyn yn rhan annatod o gynnydd pob dysgwr. Yr oedolyn sy’n galluogi dysgu sy’n gosod y disgwyliad o ran dysgu drwy greu amgylchedd sy’n ddiogel yn emosiynol, gan gefnogi dysgwyr i ddechrau mynegi a rheoli eu teimladau a’u hymddygiad mewn ffyrdd positif. Maen nhw’n gyson o ran gofal, ac yn arddangos empathi a charedigrwydd. Maen nhw’n helpu dysgwyr i ymdopi ag ansicrwydd a newid, gan eu paratoi i ddelio â chyfnodau pontio a newidiadau yn eu harferion dyddiol.

Er mwyn dyfnhau dealltwriaeth o anghenion dysgwyr o ran eu datblygiad, mae’n hanfodol bod oedolion yn blaenoriaethu arsylwi - sylwi, dadansoddi ac yn ymateb yn sensitif. Dylen nhw wneud penderfyniadau ynghylch pryd a sut i ymyrryd i helpu dysgwyr yn eu dealltwriaeth. Dylen nhw annog a chefnogi dysgwyr i ddechrau cydweithio i ddatrys problemau.

Mae’r oedolion sy’n galluogi dysgu yn helpu ac yn cefnogi dysgwyr i ddechrau sylweddoli bod eraill yn gallu meddwl a theimlo mewn ffordd sy’n wahanol iddyn nhw. Maen nhw’n ymateb i ddiddordebau’r dysgwyr, yr hyn y maen nhw’n ei hoffi ac nad ydyn nhw’n ei hoffi, ac yn parchu eu dewisiadau, gan eu cefnogi i fynegi eu safbwyntiau a gwneud penderfyniadau.

Mae’r oedolion sy’n galluogi dysgu yn helpu i greu cysylltiadau cryf rhwng cartref y dysgwyr a’r gymuned ehangach, gan gryfhau ymdeimlad y dysgwyr o berthyn, drwy groesawu’r cyfle i drafod eu profiadau yn y gorffennol a’i sefyllfa bresennol. Maen nhw’n gwerthfawrogi ac yn parchu pwysigrwydd cynnwys pawb ynghyd â hunaniaeth dysgwyr o fewn eu cymuned a’r Gymru amlddiwylliannol ehangach. Maen nhw’n hyrwyddo hunaniaeth unigryw yr iaith Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru. Mae’r oedolion sy’n galluogi dysgu hefyd yn annog dysgwyr i ddechrau gwneud cysylltiadau rhwng un iaith a’r llall, gan gynnwys Cymraeg a Saesneg, a rhwng dulliau eraill o gyfathrebu.

Mae'r oedolion sy'n galluogi dysgu yn rhai sy'n ymateb, gan ddod o hyd i donfedd gyfathrebu'r dysgwyr a dehongli sut maen nhw'n cyfathrebu drwy'r hyn y maen nhw'n ei wneud, yn ei ddweud a sut maen nhw'n ymddwyn, gan ymateb yn sensitif i hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth. Maen nhw'n datblygu hyder y dysgwyr i gyfathrebu ag eraill drwy werthfawrogi eu hymdrechion i fynegi eu safbwyntiau, eu teimladau, eu syniadau a'u barn. Maen nhw'n dangos dealltwriaeth bod dysgu cyfathrebu yn broses wahanol ar gyfer pob unigolyn, a bod dysgwyr yn meithrin a datblygu sgiliau yn eu hamser eu hunain.

Mae'r oedolion sy'n galluogi dysgu yn creu amgylchedd sy'n *llawn cyfathrebu*, gan fodelu nifer o ddulliau i'r dysgwyr fynegi eu hunain. Maen nhw'n ychwanegu at ddealltwriaeth y dysgwyr drwy ryngweithio medrus, gan ehangu ar yr wybodaeth sydd eisoes ganddyn nhw er mwyn eu cefnogi a'u hannog i wneud cysylltiadau â phobl, lleoedd a phethau. Maen nhw'n arddangos sut i ddefnyddio iaith a chysyniadau mewn ffordd briodol yn eu cyd-destun penodol.

Mae'n hanfodol bod yr oedolyn sy'n galluogi dysgu yn helpu i ddatblygu sgiliau'r dysgwyr drwy amrywiol brofiadau a chyfleoedd. Rôl yr ymarferydd yw gweld cyfleoedd i wneud y mwyaf o gysylltiadau trawsgwricwlaidd sy'n tynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y dysgwyr. Maen nhw'n cynnal ansawdd y ddarpariaeth, ac yn ystyried ac addasu eu cynlluniau yn ôl anghenion a diddordebau pob dysgwr.

Mae'r oedolion sy'n galluogi dysgu yn arddangos eu mwynhad eu hun o'r broses ddysgu, gan ddefnyddio chwilfrydedd y dysgwyr er mwyn gwneud y gorau o *gyfleoedd dysgu digymell*. Gall hyn helpu'r holl ddysgwyr i ddatblygu eu gwydnwch, eu hannibyniaeth a'u hyder drwy eu hannog i gymryd risgiau pan fo'n werth eu cymryd, a rhoi her iddyn nhw eu hunain.

**Profiadau sy'n ennyn diddordeb**

Dylai profiadau sy'n ennyn diddordeb wneud dysgwyr yn fwy annibynnol, gan gynnig her a chyfle i lwyddo ar hyd eu taith ddysgu. Dylen nhw gynnig cyfleoedd i gyfrannu ar lefel ddofn mewn gweithgareddau a chyfleoedd dysgu ymarferol heb i unrhyw beth dorri ar eu traws, a dylen nhw fod yn seiliedig ar sefyllfaoedd dilys, bywyd go iawn.

Gall profiadau gynnwys dewisiadau'r dysgwyr eu hunain neu gallan nhw ddeillio o ddiddordebau lleol neu gyfoes. Dylen nhw gefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng y Meysydd ac ar draws y cwricwlwm tra'n cydnabod datblygiad holistaidd parhaus y plentyn/person ifanc (y pum llwybr datblygu).
Dylai profiadau sy'n ennyn diddordeb barchu a gwerthfawrogi'r ffaith bod yr holl ddysgwyr a'u teuluoedd yn unigryw. Dylen nhw adlewyrchu a dathlu dwy iaith swyddogol Cymru, a'i diwylliant a'i threftadaeth gyfoethog.

Dylai profiadau sy'n ennyn diddordeb adlewyrchu'r amrywiaeth ddiwylliannol a geir mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Dylid cynnig profiad o wahanol ieithoedd a diwylliannau mewn ffyrdd sensitif ac ystyrlon sy'n rhoi pwrpas i'r dysgu. Dylai'r profiadau hyn atgyfnerthu hunaniaeth y dysgwyr eu hunain, a datblygu ac ehangu eu dealltwriaeth o gyfoeth ac amrywiaeth Cymru, ddoe a heddiw.

Mae profiadau sy'n ennyn diddordeb yn hanfodol er mwyn cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu. Mae angen profiadau ar ddysgwyr sy'n eu helpu i

feithrin gwydnwch emosiynol, a dylen nhw gael amser a chymorth i gydnabod eu teimladau eu hunain a theimladau pobl eraill. Dylid cynllunio'r profiadau yn ofalus er mwyn datblygu sgiliau talu sylw a gwrando'r dysgwyr mewn amrywiol gyd-destunau, y tu mewn a'r tu allan.

Dylai'r holl ddysgwyr gael profiadau sy'n eu hannog i fwynhau gweithgarwch corfforol. Mae angen i ystod eang o brofiadau corfforol fod ar gael iddyn nhw yn rheolaidd, y tu mewn a'r tu allan, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar ac adnoddau. Dylen nhw gael profiadau sy'n eu galluogi i ddefnyddio ystod eang o offer a chyfarpar, a hynny gyda rheolaeth gynyddol.

Bydd y profiadau hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u cyrff ac o'u gallu i gydsymud, eu cryfder craidd a'u cydbwysedd, yn ogystal â rheolaeth motor bras a manwl. Byddan nhw'n helpu dysgwyr i asesu a rheoli risg, gan eu galluogi i feddwl, ystyried a gwneud penderfyniadau ynghylch eu symudiadau a'u gweithredoedd.

Dylai profiadau ddarparu cyfleoedd i'r dysgwyr ddefnyddio'r holl synhwyrau wrth ymateb i greadigrwydd eraill, mewn ffordd sy'n ysbrydoli'r dysgwyr, a'u helpu i gyfathrebu a mynegi eu hunain yn greadigol. Dylen nhw fod yn gyfleoedd i greu ystod o ddefnyddiau sydd â nodweddion gwahanol, a dewis o'u plith. Dylai'r profiadau hefyd annog dysgwyr i ddatblygu **sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben**, yn enwedig o ran creadigrwydd, eu gallu i feddwl yn feirniadol, a datrys problemau.

Gall profiadau sy'n ennyn diddordeb helpu dysgwyr i ddarganfod gwybodaeth am eu hamgylchedd ac i ddatblygu eu gwerthfawrogiad o'r byd o'u cwmpas a'r angen i ofalu amdano.

Gall y profiadau hyn gefnogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o sut mae pethau'n gweithio, cymryd camau i ddatrys problemau, a datblygu ymwybyddiaeth o achos ac effaith. Dylai profiadau sy'n ennyn diddordeb annog dysgwyr i sylwi ar yr amgylchedd sy'n union o'u cwmpas ac yn lleol, gan gynnwys ffenomenau naturiol. Dylai'r profiadau hyn annog dysgwyr i ystyried yr amgylcheddau hyn, a siarad amdanyn nhw.

**Amgylcheddau effeithiol**

Dylai'r amgylchedd, y tu mewn a'r tu allan, fod yn ganolog i brofiadau bywyd go iawn dysgwyr. Drwy archwilio eu hamgylchedd, yn y gymuned leol a thu hwnt, mae'r dysgwyr yn dechrau datblygu ymdeimlad o berthyn a gwerthfawrogiad o'r byd o'u cwmpas.

Wrth wireddu'r cwricwlwm, dylai ymarferwyr ystyried nid yr ardaloedd ffisegol yn unig, ond hefyd yr hinsawdd emosiynol sy'n cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial. Dylai'r amgylcheddau hyn ddarparu profiadau eang ac amrywiol sy'n caniatáu i ddysgwyr fynegi eu hunain yn gorfforol, yn greadigol ac â dychymyg, ac yn caniatáu iddyn nhw ddilyn eu diddordebau, yn annibynnol neu gydag eraill.

Dylai amgylcheddau effeithiol ddathlu amrywiaeth a rhoi gwerth arno, a dylen nhw fod yn gynhwysol. Dylen nhw hyrwyddo ymdeimlad o berthyn fel bod yr holl ddysgwyr yn teimlo'n werthfawr a'u bod yn cael eu cynrychioli. Dylai'r amgylcheddau hyn fod yn llawn cyfathrebu ac yn canolbwyntio ar hyrwyddo sgiliau cyfathrebu cychwynnol gan eu datblygu ymhellach, gan sicrhau bod ystod eang o adnoddau ar gael i ddysgwyr er mwyn ehangu eu geirfa a hwyluso'r broses o ddatblygu cysyniadau.

Wrth ddarparu amgylcheddau effeithiol, dylid cynnwys cyfryngau digidol ac ystod o adnoddau eraill i wella'r broses ddysgu mewn ffyrdd sy'n briodol o ran datblygiad dysgwyr. Dylai amgylcheddau effeithiol gynnig cyfleoedd i ddysgwyr gael profiad o ryfeddu; dylai danio chwilfrydedd ynghylch elfennau byw ac elfennau nad ydyn nhw'n fyw, gan ysgogi'r dysgwyr i ymchwilio, datrys problemau, a datblygu eu sgiliau creadigol a'u gallu i feddwl yn feirniadol. Dylai'r amgylchedd hefyd gynnig amser a lle i ystyried, yn ogystal â chyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau motor bras a manwl, wrth iddyn nhw herio eu hunain yn gorfforol.

Dylai'r amgylchedd gynnig hyblygrwydd ac amrywiaeth, risg a her, a dylai gefnogi dysgwyr i ddatblygu gwydnwch, hyder ac annibyniaeth. Bydd amgylchedd effeithiol hefyd yn cefnogi meistrolaeth. Bydd yn gwneud hyn drwy ganiatáu cyfleoedd aml ac estynedig i ymarfer, ailadrodd a sefydlu sgiliau a ddysgwyd mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

**Datblygiad plant a cynllunio cwricwlwm**

Mae cynnydd yn ganolog i'r gwaith o gynllunio cwricwlwm. Mae gan yr holl ddysgwyr yng Nghymru yr hawl i gael eu gwerthfawrogi a chael cefnogaeth gadarn i wneud cynnydd ar hyd eu taith ddysgu drwy brofiadau sy'n bwysig ac yn ystyrlon iddyn nhw. Dylai'r daith hon fodloni anghenion yr unigolyn, a dylai ddigwydd ar gyflymder sy'n addas i bob dysgwr unigol.

I gynnwys pob dysgwr, beth bynnag yw'r oedran, cefndir, anghenion neu allu, dylai ymarferwyr ystyried cynnydd o safbwynt holistaidd. Dylai ymarferwyr ystyried a defnyddio'r egwyddorion cynnydd a datblygiad plant wrth drefnu, cynllunio a gweithredu cwricwlwm. Dylent roi amser i ddysgwyr ymarfer, datblygu a mireinio agweddau ar eu dysgu.

Dylai ymarferwyr ymchwilio i'r hyn sy'n cymell dysgwyr, eu dyheadau a'u diddordebau er mwyn datblygu dealltwriaeth o anghenion pob unigolyn, gan ymgorffori llais y dysgwr yn y broses gynllunio. Gall rhoi lle canolog i'r dysgwr a'r gymuned*,* a chydweithio â theuluoedd a **phartneriaid eraill** sydd ynghlwm wrth gynnydd y dysgwr, helpu i sicrhau datblygiad holistaidd.

Gall cwricwlwm ymatebol rymuso dysgwyr i ddatblygu'r gwerthoedd, sgiliau, yr wybodaeth a'r agweddau sydd eu hangen i ddysgu'n llwyddiannus a gwireddu'r **pedwar diben**. Gyda chefnogaeth fedrus a sensitif y rhai sy'n eu hadnabod yn dda, bydd diddordeb dysgwyr yn eu haddysg yn fwy, a byddan nhw'n datblygu'n unigolion mwy galluog ac annibynnol, yn barod i gyfrannu yn y byd o'u cwmpas. Byddan nhw'n iachach ac yn fwy hyderus i ryngweithio ag ystod amrywiol o bobl, lleoedd a phrofiadau. Mae hyn yn baratoad da ar gyfer cam nesaf eu taith ddysgu. Dros gyfnod, ar eu lefel eu hunain ac yn eu hamser eu hunain, mae'r dysgwyr yn meithrin perthynas ag eraill, yn datblygu sgiliau bywyd ac yn magu diddordebau personol a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu potensial. Bydd yr holl ddysgwyr yn ennill sgiliau a gwybodaeth yn eu hamser eu hunain, a bydd hyn yn wahanol ym mhob achos. Bydd pa mor gyflym y maen nhw'n gwneud hyn yn amrywio o fewn eu llwybrau cynnydd eu hunain.

Wrth i ddysgwyr gyrraedd *cerrig milltir* yn eu datblygiad, dylen nhw dyfu'n fwy soffistigedig yn eu gallu i *hunanystyried* a *hunanreoli*, a datblygu meistrolaeth fwy ar

draws ystod ehangach o sgiliau. Dylai eu gwybodaeth gynyddu a dyfnhau, a dylen nhw dyfu'n fwy abl i ddefnyddio'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu a'i roi ar waith. O ganlyniad, dylen nhw ddechrau gwneud cysylltiadau gan alluogi dysgwyr i lywio drwy amrywiaeth eang o brofiadau cyfarwydd ac anghyfarwydd i fireinio sgiliau a'u rhoi ar waith. Dylent ehangu a dyfnhau gwybodaeth. Gall hyn ganiatáu i ddysgwyr wneud cysylltiadau a throsglwyddo'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu i gyd-destunau newydd.

**Y llwybrau datblygu**

Wrth gynllunio a gweithredu cwricwlwm, dylai ymarferwyr ystyried y pum llwybr datblygu hyn, sy'n hanfodol i ddatblygiad pob dysgwr. Gall ymarferwyr eu defnyddio i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i symud ymlaen yn eu hamser eu hunain ac yn yr amgylchedd dysgu sydd orau ganddyn nhw. Mae hyn yn bwysig i bob dysgwr, ond yn enwedig i ddysgwyr iau a dysgwyr sydd ag ADY efallai neu broffiliau datblygu anghyson.

Bydd defnyddio'r pum llwybr yn holistaidd wrth gynllunio cwricwlwm yn atgyfnerthu dysgu dilys a phwrpasol, ac yn sicrhau fod pob dysgwr yn gwneud cynnydd o fewn ac ar draws y Meysydd i gyd.

**Perthyn**

Mae ymdeimlad o berthyn yn elfen hanfodol o hapusrwydd a lles. Mae'n llywio ymwybyddiaeth dysgwr o bwy ydyw a phwy y gall dyfu i fod, a dylai fod yn sail i ethos pob ysgol a lleoliad. Mae plant a phobl ifanc yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o'u lle yn y grwpiau a'r cymunedau lawer y maen nhw'n perthyn iddyn nhw, yn ogystal ag ymdeimlad o'u pwysigrwydd o'u mewn. Dylai ysgolion a lleoliadau werthfawrogi, dathlu ac adeiladu ar brofiadau blaenorol a phresennol o gartref a chymuned y dysgwr.

Gall ymdeimlad cryf o berthyn fod yn gymorth i greu teimladau positif o gysylltiad rhwng yr holl ddysgwyr a'u cartrefi yn ogystal â'u hysgolion neu leoliadau. Gall hyn ymestyn hefyd i'r gymuned, i Gymru ac i'r byd ehangach. Gall ysgolion a lleoliadau sy'n gwerthfawrogi, yn dathlu ac yn adeiladu ar brofiadau'r gorffennol a'r presennol o gartrefi'r dysgwyr a'u cymuned gryfhau ymdeimlad o berthyn. Cyfrifoldeb yr ysgolion a'r lleoliadau yw sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel o fewn eu hamgylchedd, a dangos gwir ofal a darparu cefnogaeth emosiynol.

**Cyfathrebu**

Mae cyfathrebu yn hanfodol i ddatblygiad dysgwyr. Mae'n hollbwysig er mwyn creu perthynas ag eraill, ac er mwyn dysgu, chwarae a rhyngweithio'n gymdeithasol. Mae cyfathrebu yn golygu datblygu sgiliau talu sylw, gwrando a deall, ochr yn ochr â sgiliau geirfa a mynegi.

Mae faint o iaith y mae dysgwyr yn dod ar ei draws a'r math maen nhw'n cael profiad ohono wrth ryngweithio yn gallu cael effaith nodedig ar eu datblygiad o ran sgiliau cyfathrebu. Dylai ymarferwyr wneud y mwyaf o gyfleoedd rhyngweithio i gefnogi dysgwyr i ddeall eraill a mynegi eu hunain. Gall ymarferwyr eu cefnogi o ran datblygiad iaith drwy fodelu sut i wrando ar eraill a siarad at ddibenion gwahanol.

Wrth gynllunio cwricwlwm, dylai ymarferwyr ddarparu amgylchedd sy'n cefnogi dysgwyr i fynegi a chyfathrebu eu hanghenion, eu meddyliau a'u teimladau. Mae

datblygu sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd effeithiol yn bwysig er mwyn mynegi eu hunain, datblygu cysylltiadau cymdeithasol cryf ac er mwyn dysgu'n fwy cyffredinol.

**Archwilio**

Mae chwilfrydedd dysgwyr ynghylch y byd o'u cwmpas yn gymhelliad cryf iddyn nhw fynd ati i archwilio. Dylai ymarferwyr adeiladu ar chwilfrydedd dysgwyr er mwyn iddyn nhw ryfeddu a chael eu hysbrydoli. Dylai dysgwyr gael y cyfle i archwilio ac ymchwilio, dysgu oddi wrth ei gilydd, rhannu eu llawenydd wrth ddarganfod gwybodaeth neu sgiliau newydd a dathlu eu cyflawniadau eu hunain a chyflawniadau eu cyfoedion. Dylid annog dysgwyr i geisio gwybodaeth a sgiliau sydd eisoes o fewn cwmpas eu gallu ac sydd y tu hwnt i hynny. Wrth i'w sgiliau archwilio ddatblygu, gallan nhw ganolbwyntio ar bethau sydd o ddiddordeb iddyn nhw am gyfnodau estynedig, mireinio ac ymarfer eu sgiliau, a rhoi *damcaniaethau sy'n dod i'r amlwg* ar brawf ar eu pen eu hunain a gydag eraill.

Mae archwilio yn golygu datblygu sgiliau, gwybodaeth a gallu yn raddol mewn ffyrdd cynyddol gymhleth.

**Lles**

Mae teimlo cysylltiad a theimlo'n ddiogel yn elfennau hanfodol o les cadarnhaol. Mae'r oedolion, y profiadau a'r amgylcheddau y mae dysgwyr yn dod ar eu traws yn dylanwadu arnyn nhw. Dylid darparu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu hiechyd emosiynol, cymdeithasol a chorfforol i greu ymdeimlad cryf o les.

Dylai ymarferwyr greu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol lle gall dysgwyr ddechrau adnabod a rheoli eu teimladau a'u hymddygiadau mewn ffyrdd positif. Gallan nhw hefyd helpu dysgwyr i ddechrau deall fod canlyniadau i'w gweithredoedd.

Dylai oedolion sy'n galluogi dysgu, profiadau sy'n ennyn diddordeb ac amgylcheddau effeithiol ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ymlyniadau a chydberthnasau diogel ag eraill, er mwyn teimlo'n hyderus ynddyn nhw eu hunain a bod mewn sefyllfa well i wneud dewisiadau, cymryd risgiau, meithrin gwydnwch ac annibyniaeth, a chymryd rhan bositif mewn gweithgareddau bob dydd.

## 3.7 Ystyriaethau gweithredu ac ymarferol

Dylai cwricwlwm ysgol:

- fanteisio ar ystod o dystiolaeth gadarn, gan gynnwys arbenigedd sy'n benodol i ddisgyblaethau lle bo'n briodol, dysgu o ymholiad proffesiynol, gwybodaeth o ymchwil a gwybodaeth leol a chenedlaethol,
- cael ei ddatblygu ar y cyd, annog dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol i ddeall a chyfrannu at y broses o ddatblygu'r cwricwlwm. Dylai hefyd fanteisio ar ystod ehangach o arbenigwyr a rhanddeiliaid a all gyfrannu at y dysgu,
- bod yn destun myfyrio a chael ei ddiwygio, yn seiliedig ar ddealltwriaeth a feithrinwyd drwy bob agwedd ar y dysgu ac addysgu, a chael ei gefnogi gan ymholiad proffesiynol,

- cael ei ategu gan addysgeg effeithiol.

## Datblygu ar y cyd

### Rhannu arferion gorau

Dylai ysgolion ac ymarferwyr gydweithredu i feithrin dealltwriaeth o'r hyn sy'n sail i ddulliau ac arferion llwyddiannus.

Mae Gweinidogion Cymru, gan weithio gyda phartneriaid addysgol, wedi datblygu rhwydweithiau i gefnogi a rhannu dysgu ar gyfer ymarferwyr er mwyn cefnogi dealltwriaeth o Fframwaith Cwricwlwm  i Gymru.

### Gweithio gyda rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid

Wrth ddatblygu eu cwricwlwm, dylai ysgolion gynnwys dysgwyr, rhieni, gofalwyr, asiantaethau partner a'r gymuned leol. Mae hon yn ffordd bwysig o sicrhau bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion y dysgwyr a'i fod yn ddilys i'w cyd-destun o fewn y fframwaith cenedlaethol. Mae ysgolion ac ymarferwyr hefyd yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod dysgwyr, rhieni, gofalwyr a chymunedau yn deall y weledigaeth a'r ethos sy'n sail i'r cwricwlwm.

Dylai dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol gael cyfle i gyfrannu at y broses o gynllunio'r cwricwlwm. Mae cyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr yn barhaus yn ffordd bwysig o feithrin cydberthnasau cadarnhaol er mwyn ymgysylltu â nhw mewn ffordd bwrpasol ac ystyrlon. Os caiff hyn ei wneud yn dda, gall hyrwyddo cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut y gallan nhw gefnogi dysgu yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Dylai cwricwla ysgolion hefyd gydnabod ac adlewyrchu anghenion a chyd-destunau'r cymunedau yn yr ysgol a thu hwnt.  Dylai ymarferwyr hefyd geisio cydweithredu a manteisio ar ystod o arbenigwyr a rhanddeiliaid a all gyfrannu at ddysgu, gan ddarparu profiadau unigryw a chyfoethogol i ddysgwyr.

## 3.8 Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)

### Nodweddion allweddol darpariaeth AHY

Ym mhob lleoliad addysg, gan gynnwys lleoliadau AHY, bydd cynllunio'r cwricwlwm yn seiliedig ar **egwyddorion cynllunio cwricwlwm.** Fodd bynnag, mae dysgwyr sy'n mynychu lleoliadau AHY yn wynebu rhwystrau sylweddol i ddysgu. Maen nhw'n mynychu lleoliadau AHY am resymau amrywiol ac maen nhw yn aml wedi profi heriau yn eu bywydau sy'n fwy na rhai llawer o'u cyfoedion. Felly, dylai'r elfennau canlynol gryfhau'r gwaith o gynllunio, trefnu a gweithredu cwricwlwm ar gyfer AHY:

- meithrin a chryfhau iechyd a lles pob dysgwr,
- cydweithio systematig rhwng y dysgwr, rhieni/gofalwyr, ysgol a darparwyr AHY,
- mynediad i gwricwlwm cynhwysol sy'n canolbwyntio ar anghenion unigol pob dysgwr,

- cefnogi ailintegreiddio neu bontio dysgwyr sy'n derbyn AHY i ddarpariaeth brif ffrwd neu arbenigol a/neu eu cefnogi i symud ymlaen tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu'r byd gwaith.

**Meithrin a chryfhau iechyd a lles**

Mae'n hanfodol bod y cwricwlwm yn cael ei gynllunio i gefnogi a diwallu anghenion lles meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol dysgwyr. Ni fydd dysgwyr yn dysgu'n effeithiol oni bai eu bod nhw'n fodlon ac yn ddiogel: mae lles yn hanfodol i alluogi dysgu.

Gall cynnydd dysgwyr ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles effeithio ar eu cynnydd ehangach.

Mae'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol yn cynnwys canllawiau ar gyfer datblygu cynllun gweithredu, gan ddefnyddio astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer dda.

**Cydweithio systematig**

Wrth drefnu, cynllunio a gweithredu cwricwlwm ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn AHY, yn ogystal ag ystyried materion yn ymwneud â thystiolaeth, arbenigedd a datblygu ar y cyd yn gyffredinol, rhaid hefyd gydweithio â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys:

- dysgwyr a rhieni/gofalwyr
- ymarferwyr o ysgolion a lleoliadau blaenorol a phresennol y dysgwyr yn ogystal ag ysgolion a lleoliadau byddan nhw'n eu mynychu yn y dyfodol
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion a'r pennaeth neu'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am yr uned cyfeirio disgyblion
- yr awdurdod lleol a'r darparwyr a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol.

**Mandadol**

Mae'r adran crynodeb o'r ddeddfwriaeth yn nodi gofynion Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

O ran unedau cyfeirio disgyblion, y cam cyntaf yw i'r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli a'r athro/athrawes sy'n gyfrifol gynllunio cwricwlwm i'r uned cyfeirio disgyblion sy'n ateb y gofynion canlynol, sef ei fod yn:

- sicrhau darpariaeth cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben; sy'n eang ac yn gytbwys, sy'n addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a doniau'r dysgwyr, ac sy'n cynnig cynnydd priodol,

- sicrhau dysgu ar gyfer y dysgwyr unigol sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd; sy'n cwmpasu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol; ac sy'n cwmpasu'r maes dysgu a phrofiad iechyd a lles,

- sicrhau bod darpariaeth y cwricwlwm, os yw'n rhesymol bosibl ac yn briodol, yn cynnwys dysgu ac addysgu yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill (Celfyddydau Mynegiannol; Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a

Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg) a'r elfennau mandadol eraill (Cymraeg, Saesneg, A chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg).

Ar ôl cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer y lleoliad, y cam nesaf yw ystyried sut y gellir sicrhau pob un o'r gofynion uchod ar gyfer pob dysgwr. Rhaid i'r athro/athrawes sy'n gyfrifol hefyd ystyried anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y dysgwyr. Ar gyfer AHY sy'n cael ei darparu mewn lleoliad heblaw am uned cyfeirio disgyblion, y cam cyntaf i'r awdurdod lleol yw sicrhau'r canlynol:

- darpariaeth cwricwlwm sy'n:
    - galluogi'r dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben,
    - eang ac yn gytbwys,
    - addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a doniau'r dysgwyr,
    - cynnig cynnydd priodol,

- dysgu sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd, sy'n cwmpasu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol; ac sy'n cwmpasu'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, a'r cyfan cyn belled ag y bo'n briodol i'r dysgwr unigol,

- bod darpariaeth y cwricwlwm yn cynnwys addysgu a dysgu yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill ac elfennau mandadol eraill y cwricwlwm, os yw'n rhesymol bosibl ac yn briodol gwneud hynny.

# 4. Trefniadau asesu

Rydym yn cynnig mân newidiadau i'r adran Trefniadau asesu o'r canllawiau i adlewyrchu lle rydym yn y broses o gyflwyno'r cwricwlwm, yn ogystal â darparu cysondeb o ran yr iaith ac ymdrin â dolenni a gwallau argraffyddol.

Dyma'r geiriad arfaethedig:

## 4.1 Beth sy'n newid mewn asesu?

**Ni wneir dyfarniadau ar gyrhaeddiad cyffredinol dysgwr ar adeg benodol, drwy ddyrannu deilliant neu lefel ar sail 'sy'n cyd-fynd orau'**

**Pam yr ydym yn gwneud hyn?**

Mae asesu yn y Cwricwlwm i Gymru yn ymwneud ag asesu cynnydd dysgwyr yn barhaus – peidio â llunio barn untro ar adegau penodol mewn pryd. Mae angen asesu i adlewyrchu y gall dilyniant dysgwyr fod yn amrywiol gyda chryfderau gwahanol ac mae angen iddo wella felly nid yw'n gwneud synnwyr categoreiddio dysgwyr i lefel 'ffit orau' benodol.

Mae profiad wedi dangos y gall dull 'ffit orau' ddarparu gwybodaeth gyfyngedig am ddysgwr gan y gall cryfder mewn un agwedd ar ddysgu guddio'r angen am gymorth pellach mewn mannau eraill. Felly, nid yw deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a lefelau pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol yn bodoli mwyach o dan y Cwricwlwm i Gymru ac, fel y soniwyd uchod, mae'r asesiadau diwedd cyfnod wedi'u dileu.

**Beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion/lleoliadau?**

Wrth asesu dilyniant dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o ddulliau asesu, bydd ymarferwyr yn datblygu darlun cyfannol o'r dysgwr – eu cryfderau, eu meysydd i'w gwella a'r cymorth a'r her sydd eu hangen i ddatblygu eu dysgu. Ni ddylid ystyried y disgrifiadau o ddysgu sy'n rhan o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru fel y 'lefelau newydd'. Ni ddylid eu defnyddio i ymgymryd â gweithgareddau asesu penodol ar bob cam dilyniant ac ni ddylid eu rhannu i greu meini prawf asesu penodol na ffurfio 'rhestr ticio' y byddai dysgwyr yn cael eu hasesu yn eu herbyn ar oedran neu bwynt penodol mewn pryd.

Mae'r disgrifiadau dysgu wedi'u cynllunio i helpu ymarferwyr i ddeall sut y dylai cynnydd dysgwyr edrych a darparu pwyntiau cyfeirio ar gyflymder dilyniant i lywio'r gwaith o gynllunio a dysgu ac addysgu'r cwricwlwm. Drwy nodi sut y dylai dilyniant edrych, gall y disgrifiadau o ddysgu helpu ymarferwyr i feddwl am ystod eang o ddulliau asesu i ddeall y cynnydd hwnnw. Ni fydd unrhyw un dull asesu yn cipio cynnydd dysgwyr yn llawn ac felly mae'n bwysig defnyddio ystod eang i greu darlun cyfannol o'r dysgwr a'u cefnogi i wneud cynnydd mewn perthynas â chwricwlwm yr ysgol/lleoliad. Gellir dod o hyd i gymorth ymarferol yn adran Ymlaen â'r daith yng nghanllawiau'r Fframwaith.

## 4.2 Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau Asesu

### Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd

**Sut y dylai ysgolion a lleoliadau ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd?**

Mae deialog barhaus, broffesiynol o fewn ysgolion a lleoliadau a rhyngddynt yn greiddiol er mwyn meithrin a chynnal y ddealltwriaeth gyffredin hon o gynnydd. Mae'r ddeialog broffesiynol hon yn bwysig er mwyn gwneud y canlynol:

- cynnig cyfleoedd parhaus i ymarferwyr fyfyrio ar eu dealltwriaeth o gynnydd a sut y caiff ei gyfleu yn eu cwricwlwm, gan felly fwydo i’w prosesau ar gyfer cynllunio’r cwricwlwm a threfnu asesu, gwaith cynllunio a phrosesau hunanwerthuso a gwella,
- cynnig cyfleoedd parhaus i ymarferwyr gymharu eu ffordd o feddwl gydag ysgolion a lleoliadau eraill tebyg, gan sicrhau rhywfaint o gysondeb o ran disgwyliadau ond gan barhau i gynnig hyblygrwydd lleol yr un pryd,
- atgyfnerthu dealltwriaeth o ddulliau ac arferion rhwng ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol eraill.

Er mwyn cefnogi'r ddeialog broffesiynol barhaus hon, dylai pob un sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau wneud hynny ar sail gyfartal gydag ymarferwyr yn rhannu eu profiadau eu hunain o'r broses ddysgu ac o gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd a myfyrio ar y profiadau hynny. Bydd hyn yn eu galluogi i ddysgu oddi wrth ei gilydd mewn amgylchedd cefnogol.

Bydd ffocws trafodaethau am gynnydd yn datblygu'n naturiol dros amser wrth i ysgolion a lleoliadau symud drwy gamau'r broses o gynllunio'r cwricwlwm.

**Hunanwerthuso**

Dylai'r ddeialog broffesiynol hon lywio prosesau hunanwerthuso, drwy feithrin dealltwriaeth o elfennau o'u cwricwlwm y bydd ysgolion, o bosibl, am eu gwella. Gallai hyn helpu i ddiffinio blaenoriaethau ar gyfer arweinyddiaeth a chynllunio a threfnu cwricwlwm ar gyfer dysgu ac addysgu yn y dyfodol.

**Y Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â'r daith**

- Diben adran hon y canllawiau statudol hyn yw helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu'r broses barhaus ar gyfer datblygu ac adolygu eu cwricwlwm. Bwriedir iddi helpu ysgolion i drefnu a pharatoi eu cwricwlwm wrth gyflawni eu dyletswyddau i gynllunio ac adolygu eu cwricwlwm. Gellir dod o hyd i gymorth pellach ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn yr adran Cynllunio eich cwricwlwm.

**Y rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm**

- Bydd y rhwydwaith hwn yn rhoi'r cyfle i ymarferwyr ddod at ei gilydd yn genedlaethol i drafod cynnydd mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru. Mae'n cyhoeddi mewnbwn arbenigol, deunyddiau ategol ac allbynnau'r sgyrsiau hyn ar **dudalen y Rhwydwaith Cenedlaethol ar Hwb**. Gellir defnyddio'r adnoddau hyn i lywio deialog broffesiynol ynghylch cynnydd.

**Camau asesu ar gyfer y Dyfodol**

- Bwriedir i'r adnodd hwn annog ymarferwyr i gymryd rhan mewn trafodaethau strwythuredig er mwyn meithrin eu dealltwriaeth o gynnydd dysgu a'r cysylltiadau rhyngddo a dulliau asesu. Mae ar ffurf cyfres o chwe gweithdy, gyda deunyddiau ategol, y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan grwpiau o ymarferwyr a fydd yn gweithio fel cymuned ymholi i feithrin eu dealltwriaeth o gynnydd ym mhob rhan o'r cwricwlwm a thrwy hynny, feithrin eu gallu yn eu cyd-destun eu hunain i gynllunio a defnyddio dulliau asesu sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr.

**Cefnogi deialog broffesiynol: trafodaethau y tu hwnt i'r ysgol, y lleoliad a'r clwstwr (clystyrau)**

Lle mae'n bosibl, dylai ysgolion a lleoliadau gymryd rhan mewn deialog broffesiynol y tu hwnt i'w clwstwr er mwyn helpu i wella eu dealltwriaeth o gynnydd. Bydd cyfleoedd i ymarferwyr gymryd rhan mewn trafodaethau ar gynnydd fel rhan o'r:

- rhwydweithiau a chymorth lleol neu ranbarthol
- Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm
- prosiect Camau i'r Dyfodol, sef prosiect ymchwil cenedlaethol y bwriedir iddo feithrin gallu o ran deall a datblygu cynnydd rhwng 3 ac 16 oed ym mhob rhan o'r cwricwlwm mewn ysgolion ledled Cymru

Dylai'r gwersi a ddysgwyd o drafodaethau o'r fath ar lefel leola chenedlaethol fwydo i mewn i brosesau ar lefel leol. Yn eu tro, bydd canlyniadau deialog broffesiynol yn yr ysgol, y lleoliad a/neu'r clwstwr yn cynnig mewnbwn gwerthfawr i drafodaethau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Bydd y gydberthynas hon ar y lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol yn helpu i sicrhau cydlyniaeth wrth i ysgolion a lleoliadau ymgysylltu â'r

Cwricwlwm i Gymru a'i roi ar waith, ac wrth iddo ddatblygu o fewn ysgolion a lleoliadau.

Mae gan bartneriaid addysg rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau y caiff pob ymarferydd gyfle i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol ystyrlon er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Dylai'r rôl hon fod yn gefnogol, gan adeiladu ar yr arferion sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith ar lefel ysgol neu leoliad ac ar lefel clwstwr, ac ni ddylai ymwneud ag atebolrwydd allanol. Bydd ganddynt hefyd ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i nodi arferion da a'u rhannu.

## Atodiad 1: Dealltwriaeth gyffredin o gynnydd: ystyriaethau allweddol ar gyfer galluogi trafodaethau yn ymarferol

### Nodi cyfleoedd ar lefelau lleol a chenedlaethol

- A yw eich ysgol neu'ch lleoliad yn cymryd rhan mewn sgyrsiau perthnasol fel rhan o'r rhwydwaith cenedlaethol? Sut y gellir bwydo'r gwersi a gaiff eu dysgu drwy'r sgyrsiau hyn yn ôl i mewn i drafodaethau yn yr ysgol neu'r lleoliad?

- A yw eich ysgol neu leoliad wedi manteisio ar weithdai Asesu ar gyfer y Dyfodol CAMAU? Os felly, sut y gellid defnyddio’r rhain i drafod cynnydd a’r cysylltiadau rhwng hyn a’r dulliau asesu?

- Pa gymorth a chyfleoedd trafod pellach sydd ar gael i'r ysgol neu'r lleoliad drwy rwydweithiau lleol a chenedlaethol a sut y gellid eu defnyddio i drafod cynnydd?

## 4.3 Cefnogi’r broses o drosglwyddo i’r Cwricwlwm i Gymru

## Y trefniadau asesu mewn ysgolion o dymor yr haf 2023

### Cyfathrebu â rhieni a gofalwyr

Mae darparu adroddiadau ysgrifenedig gan benaethiaid mewn perthynas â phob dysgwr mewn ysgolion a gynhelir gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion yn parhau i fod yn ofyniad statudol ar gyfer yr ysgolion hynny sydd heb gyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru eto ar gyfer grwpiau blwyddyn perthnasol. I’r grwpiau blwyddyn sy’n gweithredu o dan y Cwricwlwm i Gymru, mae dyletswydd ar benaethiaid i wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth am gynnydd blynyddol dysgwyr. Y pennaeth sy’n pennu’r ffurf fwyaf priodol ar gyfer darparu’r wybodaeth i rieni a gofalwyr, ynghyd ag amseriad y ddarpariaeth.

Mae’r gofynion statudol ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr i’w gweld yn yr adran crynodeb o’r ddeddfwriaeth yng nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru.

O ran gwybodaeth am ddysgwyr unigol, rhaid i ysgolion a lleoliadau rannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr am y canlynol:

- cynnydd eu plentyn,
- ei anghenion i wneud cynnydd i’r dyfodol,
- beth ellir ei wneud gartref i helpu i gyflawni’r anghenion i wneud cynnydd i’r dyfodol,
- ei fodlonrwydd cyffredinol yn yr ysgol.

Rhaid rhannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol gyda'u rhieni a'u gofalwyr o leiaf bob tymor, ac nid oes angen llunio adroddiadau ysgrifenedig hirfaith, ond dylai'r adborth gael ei roi ar y fformat sydd orau gan y pennaeth. Dylai fod ar ffurf hwylus sy'n sicrhau'r cyswllt mwyaf â rhieni a gofalwyr, ac sy'n sicrhau'r eglurder mwyaf posibl.

Dylid darparu crynodeb o'r wybodaeth am ddysgwyr unigol bob blwyddyn, a bydd y pennaeth yn pennu pryd ac ar ba fformat, gan sicrhau cynnydd mwyaf y dysgwr.

## Cyflwyno'r cwricwlwm

### Trefniadau asesu wrth i ddysgwyr ddechrau mewn ysgol neu leoliad

O dan y Cwricwlwm i Gymru, mae'r trefniadau asesu wrth i ddysgwr ddechrau yn rhan bwysig o drefniadau asesu cyffredinol ysgol neu leoliad i gynllunio a chefnogi dysgwr yn briodol i wneud cynnydd o fewn cwricwlwm.

I gefnogi hyn, rhaid i ysgolion a lleoliadau:

- wneud a gweithredu trefniadau asesu sy'n helpu i greu darlun o alluoedd a doniau'r dysgwr mewn perthynas â chwricwlwm yr ysgol neu'r lleoliad,

- gweithredu'r asesiadau ar gyfer dysgwyr sydd newydd eu cofrestru mewn ysgol neu leoliad (ac eithrio dysgwyr Blwyddyn 6 sy'n pontio i Flwyddyn 7), gan gydnabod bod dysgwyr yn mynd i mewn i ysgolion a lleoliadau ar wahanol adegau ar draws y continwwm rhwng 3 ac 16 oed,

- cynnal yr asesiadau o fewn 6 wythnos i ddysgwr gyrraedd ysgol neu leoliad i gefnogi dealltwriaeth o ddechrau taith y dysgwr. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adran Crynodeb o'r ddeddfwriaeth,

- defnyddio canlyniadau'r asesiadau i gynllunio'r camau nesaf a theilwra'r dysgu a'r addysgu i alluogi cynnydd.

Er mwyn sicrhau bod gan ysgolion a lleoliadau yr hyblygrwydd i sicrhau bod eu trefniadau asesu wrth i ddysgwyr ddechrau yn cyd-fynd â'u cwricwlwm, ysgolion a lleoliadau fydd yn gyfrifol am bennu manylion y trefniadau hyn. Er hynny, rhaid i'r asesiadau fodloni'r canlynol:

- bod yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau,
- cefnogi sgiliau rhifedd,
- cefnogi sgiliau llythrennedd,
- cefnogi datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant a dysgwyr.

Ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, dylid trosglwyddo gwybodaeth i gefnogi eu cynnydd ar hyd y continwwm dysgu fel rhan o drefniadau pontio a roddir ar waith rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Felly, mae cydweithio effeithiol ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd yn allweddol i gefnogi taith ddysgu esmwyth ar hyd y continwwm rhwng 3 ac 16 oed.

## 4.4 Canllawiau ar gyfer pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu'r ysgolion hynny lunio cynllun pontio ar y cyd i gefnogi'r broses o helpu dysgwyr i bontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r gofynion ar gyfer cynlluniau pontio, gan gynnwys pwy sy'n gorfod llunio cynlluniau, cynnwys y cynlluniau hynny, a'r gofynion sy'n ymwneud ag adolygu cynlluniau o'r fath.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth am drefniadau gwirfoddol i gefnogi a gwella'r gwaith o gynllunio ar gyfer y cyfnod pontio – gan gydnabod bod gan lawer o ysgolion cynradd gysylltiadau â nifer o ysgolion uwchradd sydd y tu allan i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cynlluniau pontio.

Mae manylion llawn dyletswyddau cyfreithiol y gofynion i lunio cynlluniau pontio wedi'u cynnwys yn y **Rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022** (Rheoliadau Pontio 2022) a'r **Gofyniad i lunio cynlluniau pontio a chanllawiau 2022**.

**Y gofynion cyfreithiol**

Mae'r adran hon yn crynhoi'r gofynion cyfreithiol a osodir ar gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, ac mae'r manylion llawn amdanyn nhw yn Rheoliadau Pontio 2022. Dylid edrych ar y Rheoliadau Pontio 2022 hynny ochr yn ochr â'r canllawiau hyn.

Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r amgylchiadau y mae angen cynllun pontio ar eu cyfer, y diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo at ddibenion cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio, y meysydd i fynd i'r afael â nhw mewn cynllun pontio, a'r gofynion ar gyfer cyhoeddi ac adolygu cynllun pontio.

**Diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo**

Mae ysgol gynradd sy'n bwydo yn cael ei phennu gan gyrff llywodraethu ysgolion ar ôl rhoi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r canllawiau wedi'u cynnwys yn y Gofyniad i lunio cynlluniau pontio a chanllawiau 2022. Mae'r canllawiau hynny'n datgan bod Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid cyfyngu'r gofyniad i lunio cynlluniau pontio i achosion pan fo perthynas sefydledig a pharhaus rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd benodol sy'n seiliedig ar y ffaith bod y rhan fwyaf o garfan Blwyddyn 6 o'r ysgol gynradd yn pontio i'r ysgol uwchradd benodol honno.

Nid yw'r diffiniad yn mynd y tu hwnt i'r meini prawf derbyn presennol ar gyfer ysgolion uwchradd, nac yn pennu dalgylch ysgol uwchradd benodol.

Dylid adolygu'r berthynas rhwng yr ysgolion cynradd sy'n bwydo yn flynyddol er mwyn penderfynu a oes angen cynllun pontio o hyd o ganlyniad i batrymau newidiol mewn perthynas â symudiadau dysgwyr.

**Amseriad cyhoeddi cynlluniau pontio**

Y cynnig yw dileu'r testun yn yr is-adran hon, heblaw'r frawddeg ganlynol:

Rhaid i gynlluniau pontio gael eu cyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn ysgol y bwriedir iddyn nhw fod yn berthnasol iddi, neu cyn hynny.

**Eithriad rhag y gofyniad i gynhyrchu cynllun pontio**

Cydnabyddir os oes gan ysgol garfan fach ym Mlwyddyn 6 y gall y ganran o ddysgwyr sy’n symud i ysgol uwchradd benodedig newid yn sylweddol bob blwyddyn. Felly, os oes gan ysgol sydd â dysgwyr o Flynyddoedd 1 i 6 gyfanswm o 50 neu lai o ddysgwyr cofrestredig, a bod gan ysgol sydd â dysgwyr o Flynyddoedd 3 i 6 32 neu lai o ddysgwyr cofrestredig, yna mae ysgolion o’r fath wedi’u heithrio o’r gofyniad statudol i lunio cynllun pontio.
Mae nifer yr ysgolion mewn amgylchiadau o’r fath yn gymharol fach. Fodd bynnag, anogir ysgolion o’r fath i wneud trefniadau cynllunio gwirfoddol ar y cyd ag ysgolion uwchradd i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer y cyfnod pontio. Dylai’r trefniadau hyn fanteisio ar y cysylltiadau a sefydlwyd drwy ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd – gweler yr adran ‘Cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio a dealltwriaeth gyffredin o gynnydd’.

# 5. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Rydym yn cynnig newidiadau i'r adran Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Fframwaith i gadarnhau pwysigrwydd ffoneg wrth addysgu dysgwyr. Rhaid i ddull systematig a chyson o addysgu ffoneg fod yn rhan allweddol o'r pecyn cymorth darllen yn ein hysgolion i addysgu dysgwyr i ddadgodio geiriau a meistroli hanfodion darllen. Ar ôl dysgu dadgodio geiriau, gall dysgwyr ddefnyddio ystod o strategaethau i ddatblygu dealltwriaeth o ystyr geiriau a brawddegau. Rydym wedi cynnig newidiadau i egluro'r geiriad sy'n ymwneud â defnyddio lluniau a chyd-destun i helpu dysgwyr i ddeall a gwneud synnwyr o'r hyn y maen nhw’n ei ddarllen.
Rydym wedi cynnig newidiadau i bedwar o'r disgrifiadau dysgu o dan **Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o’n hamgylch**. Rydym yn argymell eich bod yn ystyried y newidiadau hyn yng nghyd-destun pob un o’r **Disgrifiadau dysgu** ar gyfer y datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig. Rydym hefyd wedi cynnig newidiadau i adran darllen Cynllunio eich cwricwlwm**.**

Dyma'r geiriad arfaethedig:

## 5.1 Disgrifiadau dysgu

**Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o’n hamgylch**

**Cam cynnydd 1:**

*Cymraeg/Saesneg*

Rwy'n dechrau datblygu fy ngwybodaeth o *gyfatebiaeth graffem-ffonem,* ac i gyfuno'r wybodaeth honno.

Rwy’n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i’m helpu i ddeall ystyr yr hyn rwy'n ei ddarllen.

**Cam cynnydd 2:**

Rwy'n gallu defnyddio cyfatebiaethau graffem-ffonem wrth ddarllen, gan gynnwys cyfuno'r rhain i ddadgodio geiriau.

*Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg*

Rwy’n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i’m helpu i ddeall ystyr geiriau.

## 5.2 Cynllunio eich cwricwlwm

**Ystyriaeth benodol ar gyfer y Maes hwn**

**Darllen**

Yn y cyfnodau cynharaf, mae dysgu darllen yn ddibynnol ar yr iaith lafar sydd gan ddysgwyr. Felly mae datblygu sgiliau gwrando a siarad da yn angenrheidiol i lwyddo wrth ddysgu darllen.

Gall dysgwyr ifanc fod yn gyfarwydd â llyfrau stori, hwiangerddi a phrint wrth iddyn nhw ddechrau addysg ffurfiol. Bydd rhai wedi dechrau adnabod llythrennau unigol a geiriau. Bydd gan eraill, fodd bynnag, brofiad mwy cyfyng o ddefnyddio iaith, rhannu straeon, caneuon a rhigymau gydag oedolion. Mewn rhai achosion, gallai dysgwyr fod ag anghenion dysgu cyffredinol neu benodol. Byddan nhw hefyd efallai yn dysgu darllen mewn iaith sy’n wahanol i’w hiaith lafar. Mae’r pwyntiau cychwynnol a’r profiadau gwahanol hyn yn golygu y dylai lleoliadau ac ysgolion wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am sut y byddan nhw’n rhoi cymorth i ddysgwyr ddod yn ddarllenwyr llwyddiannus.
Dylai dysgwyr feithrin sgiliau darllen cynnar mewn awyrgylch sy’n gyfoethog o ran iaith, lle mae'r gweithgareddau’n ystyrlon, yn llawn dychymyg ac yn amrywiol. Dylai’r gweithgareddau hyn ennyn diddordeb dysgwyr mewn darllen, am eu bod yn mwynhau darllen, yn defnyddio eu dychymyg ac yn dysgu pethau newydd.

Mae ymchwil yn cydnabod bod ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemig yn sgiliau gwybyddol pwysig wrth ddysgu darllen. Dylai ysgolion osod gweithdrefnau clir ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemig eu dysgwyr mewn modd systematig, gan roi pwyslais ar hyn.

Pan fydd yr adeg yn briodol o ran datblygiad y dysgwr, dylai *ffoneg* gael ei haddysgu mewn modd systematig a chyson, a dylai ddigwydd ar y cyd â gweithgareddau ieithyddol eraill sy’n hybu datblygiad geirfa a dealltwriaeth. O ran ystyr systematig, rydym yn golygu y dylai’r dull gynnwys addysgu'r ffonemau y mae gwahanol graffemau yn eu cynrychioli i ddysgwyr mewn modd clir a manwl. Fel arfer, dylai hynny olygu symud o'r unedau sain lleiaf a mwyaf syml yn gyntaf i gyfatebiaethau graffem-ffonem mwy cymhleth.  Mae hynny’n paratoi dysgwyr i gyfuno'r cyfatebiaethau graffem- ffonem hyn, er mwyn dadgodio geiriau.

Mae'n bwysig bod gwybodaeth a defnydd pob dysgwr o graffemau-ffonemau yn adeiladu ar ymwybyddiaeth ffonolegol gadarn. Heb yr ymwybyddiaeth honno, mae'n annhebygol y bydd dull systematig o addysgu ffoneg yn effeithiol.

Ochr yn ochr â'r dull hwn o ymdrin â ffoneg, dylid hefyd gydbwyso hynny drwy ddefnyddio ystod o ddulliau addysgu a dysgu sy'n ymateb i anghenion dysgwyr wrth iddynt wneud cynnydd ac adeiladu ar eu dealltwriaeth a'u defnydd o graffemau-ffonemau. Mae hyn yn cynnwys addysgu sgiliau darllen eraill ochr yn ochr â dadgodio fel bod dysgwyr, er enghraifft, yn gallu deall yr hyn y maen nhw'n ei ddarllen.

Nid yw gallu *dadgodio* geiriau yn unig yn ddigon. Dylai dysgwyr fod yn gallu gwneud synnwyr o'r hyn y maen nhw'n ei ddarllen. Dylai'r addysgu alluogi dysgwyr i ennill ystod o sgiliau a chymhwyso gwahanol strategaethau, er mwyn dod yn *ddarllenwyr rhugl*. Dylai hyn roi sylfaen gadarn iddyn nhw allu datblygu ac ymestyn eu sgiliau iaith a llythrennedd.

Mae hefyd yn bwysig ystyried anghenion dysgwyr unigol, a sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir yn ymateb i'r anghenion penodol hynny.

## 6. Rhestr o ddiffiniadau'r Cwricwlwm i Gymru

Rydym yn cynnig mân newidiadau i ddiffiniadau'r Cwricwlwm i Gymru y gellir eu gweld yn y canllawiau drwy hofran dros y testun perthnasol er mwyn sicrhau bod y termau yn ramadegol gywir ac yn gyson yn y ddwy iaith.  Yn y rhestr ganlynol, rydym wedi darparu'r diffiniadau hynny lle cynigir newidiadau.

| Geiriad presennol | Newidiadau arfaethedig |
|---|---|
| **Perthynas adiol** (Additive relationship) Meintiau perthnasol sy'n gallu cael eu cysylltu trwy ddefnyddio adio neu/a thynnu | **Perthynas adiol** (Additive relationship) Dau neu fwy o feintiau y gellir eu cyfleu fel rhai sy'n gysylltiedig â'i gilydd. |
| **Perthnasau adiol** (Additive relationships) Meintiau perthnasol sy'n gallu cael eu cysylltu trwy ddefnyddio adio neu/a thynnu. | **Perthnasau adiol** (Additive relationships) Dau neu fwy o feintiau y gellir eu cyfleu fel rhai sy'n gysylltiedig â'i gilydd. |
| **Dysgwr sy'n oedolyn** (Adult learner) At ddibenion canllawiau Cwricwlwm i Gymru, dysgwr ym Mlwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 mewn ysgol neu leoliad sy'n ddarostyngedig i rai o ddarpariaethau'r Ddeddf. | **Dysgwr sy'n oedolyn** (Adult learner) At ddibenion canllawiau Cwricwlwm i Gymru, dysgwr ym Mlwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 mewn ysgol neu leoliad sy'n ddarostyngedig i rai o ddarpariaethau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. |
| **Eirioli** (Advocate) cefnogi hawliau pobl eraill drwy helpu i sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n cael eu clywed a llywio penderfyniadau. | **Eirioli** (Advocate) Cefnogi hawliau pobl eraill drwy helpu i sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n cael eu clywed a llywio penderfyniadau. |
| **Symboleiddio algebraidd** (Algebraic symbolisation) Mae algebra yn defnyddio gwrthrychau sydd heb fod yn rhifau, yn lle gwerthoedd anhysbys, er mwyn gwneud cyfrifiadau rhifiadol. | **Symboleiddio algebraidd** (Algebraic symbolisation) Y defnydd o wrthrychau sydd heb fod yn rhifau, yn lle gwerthoedd anhysbys, er mwyn gwneud cyfrifiadau rhifiadol. |

| | |
|---|---|
| **Dadansoddi** (Analyse) Chwilio am batrymau, tybiaethau sylfaenol, rhesymau pam mae'r pwnc yn cael ei drin yn y fath fodd ac effeithiau hynny. | **Dadansoddi** (Analyse) Chwilio am batrymau, tybiaethau sylfaenol, a'r rhesymau am y ffordd y mae'r pwnc yn cael ei drin yn y fath fodd ac effeithiau hynny. |
| **Lluosi â'r aráe** (Array multiplication) Diagram sy'n dangos swm lluosi fel aráe. Er enghraifft gall 5 × 4 gael ei ddangos trwy drefnu 20 o gownteri mewn 5 rhes a 4 colofn. | **Lluosi â'r aráe** (Array multiplication) Diagram sy'n dangos swm lluosi fel aráe. Er enghraifft, gall 5 × 4 gael ei ddangos trwy drefnu 20 o gownteri mewn 5 rhes a 4 colofn. |
| **Araeau** (Arrays) Diagramau sy'n dangos swm lluosi fel aráe. Er enghraifft gall 5 × 4 gael ei ddangos trwy drefnu 20 o gownteri mewn 5 rhes a 4 colofn. | **Araeau** (Arrays) Diagramau sy'n dangos swm lluosi fel aráe. Er enghraifft, gall 5 × 4 gael ei ddangos trwy drefnu 20 o gownteri mewn 5 rhes a 4 colofn. |
| **Artist** (Artist) Person sy'n creu gwaith mewn unrhyw un o'r disgyblaethau, gan gynnwys y dysgwyr eu hunain. | **Artist** (Artist) Person sy'n creu gwaith mewn unrhyw un o'r disgyblaethau, gan gynnwys y dysgwyr eu hunain. |
| **Artistiaid** (Artists) Pobl sy'n creu gwaith mewn unrhyw un o'r disgyblaethau, gan gynnwys y dysgwyr eu hunain. | **Artistiaid** (Artists) Pobl sy'n creu gwaith mewn unrhyw un o'r disgyblaethau, gan gynnwys y dysgwyr eu hunain. |
| **Perthynas amseryddol** (Aspect) Mae perthynas amseryddol yn dangos pryd ddigwyddodd rhywbeth gan gymharu â rhywbeth arall. Mae'n dangos pa mor hir oedd y digwyddiad, a ydyw wedi gorffen neu'n digwydd o hyd ac yn y blaen. Mae sawl ffordd i ddangos perthynas amseryddol yn BSL gan gynnwys newid ffurf y ferf, ychwanegu gair megis 'gorffen' neu drwy trefn arwyddo. | **Perthynas amseryddol** (Aspect) Mae perthynas amseryddol yn dangos pryd ddigwyddodd rhywbeth gan gymharu â digwyddiad arall. Mae'n dangos pa mor hir oedd y digwyddiad, a ydyw wedi gorffen neu'n digwydd o hyd ac yn y blaen. Mae sawl ffordd i ddangos perthynas amseryddol yn BSL gan gynnwys newid ffurf y ferf, ychwanegu gair megis 'gorffen' neu drwy drefn arwyddo. |
| **Cysylltiadol** (Associative) Deddf yw hon sy'n ymwneud â gweithredyddion mathemategol sy'n rhoi'r un ateb wrth eu grwpio mewn gwahanol ffyrdd. Mae adio a lluosi rhifau yn gysylltiadol, er enghraifft 2 x (4 x 3) = (2 x 4) x 3 | **Cysylltiadol** (Associative) Deddf sy'n ymwneud â gweithredyddion mathemategol sy'n rhoi'r un ateb wrth eu grwpio mewn gwahanol ffyrdd. Mae adio a lluosi rhifau yn gysylltiadol, er enghraifft 2 x (4 x 3) = (2 x 4) x 3. |
| **Chysylltiadedd** (Associativity) Deddf yw hon sy'n ymwneud â gweithredyddion mathemategol sy'n rhoi'r un ateb wrth eu grwpio mewn gwahanol ffyrdd. Mae adio a lluosi rhifau yn gysylltiadol, er enghraifft 2 x (4 x 3) = (2 x 4) x 3 | **Cysylltiadedd** (Associativity) Deddf sy'n ymwneud â gweithredyddion mathemategol sy'n rhoi'r un ateb wrth eu grwpio mewn gwahanol ffyrdd. Mae adio a lluosi rhifau yn gysylltiadol, er enghraifft 2 x (4 x 3) = (2 x 4) x 3. |
| **Cyd-destunau dilys** (Authentic contexts) Cyd-destunau sy'n ystyrlon i ddysgwyr a sy'n adlewyrchu profiadau go iawn. | **Cyd-destunau dilys** (Authentic contexts) Cyd-destunau sy'n ystyrlon i ddysgwyr ac sy'n adlewyrchu profiadau go iawn. |

| | |
|---|---|
| **Ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth** (Awareness, knowledge and understanding) yn ystod eu datblygiad cynnar, mae dysgwyr yn profi dulliau cyfannol o archwilio cydberthnasau, a chânt eu cefnogi i feithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd. Mae ymwybyddiaeth dysgwyr yn cynyddu wrth iddyn nhw wneud cynnydd o ran eu dysgu gyda chysyniadau'n cael eu cyflwyno'n raddol yn unol â datblygiad y dysgwr. Wrth iddyn nhw fynd drwy'r continwwm, mae dysgwyr yn meithrin mwy o wybodaeth a dealltwriaeth ac, yn aml, yn cael mwy o brofiad o'r themâu gwahanol sy'n rhan o'r cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb. | **Ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth** (Awareness, knowledge and understanding) Yn ystod eu datblygiad cynnar, mae dysgwyr yn profi dulliau cyfannol o archwilio cydberthnasau, a chânt eu cefnogi i feithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd. Mae ymwybyddiaeth dysgwyr yn cynyddu wrth iddyn nhw wneud cynnydd o ran eu dysgu gyda chysyniadau'n cael eu cyflwyno'n raddol yn unol â datblygiad y dysgwr. Wrth iddyn nhw fynd drwy'r continwwm, mae dysgwyr yn meithrin mwy o wybodaeth a dealltwriaeth ac, yn aml, yn cael mwy o brofiad o'r themâu gwahanol sy'n rhan o'r cwricwlwm addysg cydberthynas a rhywioldeb. |
| **Cysyniadau sylfaenol mewn iaith** (Basic concepts in language) Geiriau sy'n dynodi lleoliad (er enghraifft: i fyny neu i lawr), cyfanswm (er enghraifft: mwy neu lai), disgrifiadau (er enghraifft: mawr neu fach), a theimladau (er enghraifft: hapus neu drist). | **Cysyniadau sylfaenol mewn iaith** (Basic concepts in language) Geiriau sy'n dynodi lleoliad (er enghraifft: 'i fyny' ac 'i lawr'), cyfanswm (er enghraifft: 'mwy' a 'llai'), disgrifiadau (er enghraifft: 'mawr' a 'bach'), a theimladau (er enghraifft: 'hapus' a 'trist' ). |
| **Ddwyieithog** (Bilingual) Mae dwyieithrwydd yn cyfeirio at wybod a defnyddio dwy iaith neu bresenoldeb dwy iaith o fewn cymdeithas benodol. Bydd gallu dysgwyr yn amrywio yn yr ieithoedd hyn a gallant eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol gyda phobl wahanol. | **Dwyieithog** (Bilingual) Yn ymwneud â gwybod a defnyddio dwy iaith, neu bresenoldeb dwy iaith o fewn cymdeithas benodol. Bydd gallu dysgwyr yn amrywio yn yr ieithoedd hyn a gallan nhw eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol gyda phobl wahanol. |
| **Lenyddiaeth BSL** (BSL literature) Gwaith creadigol fel barddoniaeth, drama, rhyddiaith, ffuglen a ffaith ac iaith y llygaid wedi ei greu yn BSL. | **Llenyddiaeth BSL** (BSL literature) Gwaith creadigol fel barddoniaeth, drama, rhyddiaith, ffuglen a ffaith ac iaith y llygaid wedi ei greu yn BSL. |
| **Camau** (Camau) Mae Camau yn brosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glasgow. Cefnogodd ddatblygiad cynnydd yng Nghwricwlwm i Gymru. | **Camau** (Camau) Prosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glasgow yw Camau, prosiect a gefnogodd ddatblygiad cynnydd o fewn Cwricwlwm i Gymru. |
| **Prifol** (Cardinal) Rhif sy'n dynodi maint (un, dau, tri ac ati), yn hytrach na rhif trefnol sy'n disgrifio safle rhywbeth mewn cyfres (cyntaf, ail, trydydd, ac ati). | **Prifol** (Cardinal) Rhif sy'n dynodi maint (un, dau, tri ac ati), yn hytrach na rhif trefnol sy'n disgrifio safle rhywbeth mewn cyfres (cyntaf, ail, trydydd ac ati). |
| **Rhif prifol** (Cardinal number) Rhif sy'n dynodi maint (un, dau, tri, ac ati), yn hytrach na rhif trefnol sy'n disgrifio safle rhywbeth mewn cyfres (cyntaf, ail, trydydd, ac ati). | **Rhif prifol** (Cardinal number) Rhif sy'n dynodi maint (un, dau, tri, ac ati), yn hytrach na rhif trefnol, sy'n disgrifio safle rhywbeth mewn cyfres (cyntaf, ail, trydydd ac ati). |
| **Addysg gyrfaoedd** (Careers education) dysgu am yrfaoedd fel rhan o'r cwricwlwm, yn | **Addysg gyrfaoedd** (Careers education) Dysgu am yrfaoedd fel rhan o'r cwricwlwm. |

| | |
|---|---|
| aml bydd cysylltiad agos rhwng hyn a phrofiad gwaith a mathau eraill o brofiadau cysylltiedig â byd gwaith. Nod hyn yw cefnogi unigolion i feithrin sgiliau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phrofiadau ystyrlon o fyd gwaith. | Yn aml bydd cysylltiad agos rhwng hyn a phrofiad gwaith a mathau eraill o brofiadau cysylltiedig â byd gwaith. Nod hyn yw cefnogi unigolion i feithrin sgiliau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phrofiadau ystyrlon o fyd gwaith. |
| **Arweiniad gyrfaoedd** (Careers guidance) arweiniad arbenigol lle caiff sgiliau, nodweddion a diddordebau unigolyn eu hystyried er mwyn ei helpu i wneud dewisiadau o ran addysg, hyfforddiant a galwedigaeth i'w helpu i baratoi ar gyfer byd gwaith. | **Arweiniad gyrfaoedd** (Careers guidance) Arweiniad arbenigol lle caiff sgiliau, nodweddion a diddordebau unigolyn eu hystyried er mwyn ei helpu i wneud dewisiadau o ran addysg, hyfforddiant a galwedigaeth i'w helpu i baratoi ar gyfer byd gwaith. |
| **Dylunio cylchol** (Circular design) ysyniad lle y caiff cynhyrchion eu dylunio er mwyn arbed neu ailddefnyddio adnoddau; gellir eu hatgyweirio yn hawdd a’u defnyddio am gyfnodau hwy. | **Dylunio cylchol** (Circular design) Cysyniad lle y caiff cynhyrchion eu dylunio er mwyn gallu arbed neu ailddefnyddio adnoddau, a gellir eu hatgyweirio yn hawdd a’u defnyddio am gyfodau hwy. |
| **Cyfernod** (Coefficient) Rhif sy’n ymddangos cyn y newidyn neu’r newidynnau mewn term algebraidd. Yn y term $5x^2$, y cyfernod yw 5 a’r newidyn yw x. Yn y term $y^3$, y cyfernod (sydd heb ei ysgrifennu) yw 1 a'r newidyn yw y. | **Cyfernod** (Coefficient) Rhif sy’n ymddangos cyn y newidyn neu’r newidynnau mewn term algebraidd. Er enghraifft, yn y term $5x^2$, y cyfernod yw 5 a’r newidyn yw x. Yn y term $y^3$, y cyfernod (sydd heb ei ysgrifennu) yw 1 a'r newidyn yw y. |
| **Geiriau cytras** (Cognates) Mae gan eiriau cytras yr un tarddiad, neu maent yn gysylltiedig ac yn debyg mewn rhyw ffordd, e.e. mae’r gair Eidaleg mangiare (= bwyta) yn gytras â’r gair Ffrangeg manger; ac mae composite, composition a compost yn gytras yn Saesneg, gan eu bod yn deillio o’r un gwraidd Lladin, sef componere (= rhoi at ei gilydd). | **Geiriau cytras** (Cognates) Mae'r gair ‘ffenest’ yn Gymraeg yn gytras a'r gair ‘fenêtre’ yn Ffrangeg ac yn traddu o'r Lladin, ‘fenestra’; ac mae ‘composite’, ‘composition’ a ‘compost’ yn gytras yn Saesneg, gan eu bod yn deillio o’r un gwraidd Lladin, sef ‘componere’ (= rhoi at ei gilydd). |
| **Llawn Cyfathrebu** (Communication rich) Amgylchedd sy’n cefnogi sgiliau siarad a gwrando, lles emosiynol, ymgysylltu corfforol ac ymgysylltu cyffredinol. | **Llawn Cyfathrebu** (Communication rich) Yn ymwneud ag amgylchedd sy’n cefnogi sgiliau siarad a gwrando, lles emosiynol, ymgysylltu corfforol ac ymgysylltu cyffredinol. |
| **Cymudol** (Commutative) Deddf yw hon sy’n ymwneud â gweithredyddion mathemategol sy’n rhoi’r un ateb, hyd yn oed os yw trefn y rhifau sy’n cael eu mewnbynnu yn newid. Mae adio a lluosi rhifau yn gymudol. Hynny yw, $a + b = b + a$ ac $a \times b = b \times a$. | **Cymudol** (Commutative) Yn ymwneud â gweithredyddion mathemategol sy’n rhoi’r un ateb, hyd yn oed os yw trefn y rhifau sy’n cael eu mewnbynnu yn newid. Mae adio a lluosi rhifau yn gymudol. Er enghraifft, $a + b = b + a$ ac $a \times b = b \times a$. |
| **Cymudedd** (Commutativity) Deddf yw hon sy’n ymwneud â gweithredyddion mathemategol sy’n rhoi’r un ateb, hyd yn oed os yw trefn y rhifau sy’n cael eu mewnbynnu yn newid. Mae adio a lluosi rhifau yn gymudol. Hynny yw, $a + b = b + a$ ac $a \times b = b \times a$. | **Cymudedd** (Commutativity) Deddf sy’n ymwneud â gweithredyddion mathemategol sy’n rhoi’r un ateb, hyd yn oed os yw trefn y rhifau sy’n cael eu mewnbynnu yn newid. Mae adio a lluosi rhifau yn gymudol. Er enghraifft, $a + b = b + a$ ac $a \times b = b \times a$. |
| **Mesur cyfansawdd** (Compound measure) Mae mesur cyfansawdd yn cyfuno dwy uned | **Mesur cyfansawdd** (Compound measure) Mae mesur cyfansawdd yn cyfuno dwy uned |

| | |
|---|---|
| mesur wahanol, neu fwy, i ffurfio uned mesur newydd. Er enghraifft, gall pellter gael ei fesur mewn milltiroedd ac amser mewn oriau. Gallwn gyfuno'r mesuriadau yma i ffurfio'r mesur cyfansawdd buanedd (cyflymder) sy'n cael ei fesur yma mewn miltiroedd yr awr (mya). | fesur wahanol, neu fwy, i ffurfio uned fesur newydd. Er enghraifft, gall pellter gael ei fesur mewn milltiroedd ac amser mewn oriau. Gallwn gyfuno'r mesuriadau yma i ffurfio'r mesur cyfansawdd buanedd (cyflymder) sy'n cael ei fesur yma mewn miltiroedd yr awr (mya). |
| **Cyfrifiannol** (Computational) Y broses o wneud un neu fwy o gyfrifiadau. | **Cyfrifiannol** (Computational) Yn ymwneud â'r broses o wneud un neu fwy o gyfrifiadau. |
| **Cyfrifiannau** (Computations) Y broses o wneud un neu fwy o gyfrifiadau. | **Cyfrifiannau** (Computations) Cyfrifiant yw'r broses o wneud un neu fwy o gyfrifiadau. |
| **Datblygu cysyniadau** (Concept development) Proses sy'n gysylltiedig â datblygiad iaith, sy'n cefnogi dysgwyr i ddeall cyfeiriad, lleoliad, safle, rhif, nifer, dilyniant patrwm, nodweddion, dimensiwn, maint, ac elfennau sy'n debyg ac sy'n wahanol. | **Datblygu cysyniadau** (Concept development) Proses sy'n gysylltiedig â datblygiad iaith, sy'n cefnogi dysgwyr i ddeall cyfeiriad, lleoliad, safle, rhif, nifer, dilyniant patrwm, nodweddion, dimensiwn, maint, ac elfennau sy'n debyg ac sy'n wahanol. |
| **Cydsyniad** (Consent) pan fo un person yn rhoi cydsyniad gwybodus a rhydd i berson arall wneud rhywbeth sy'n effeithio arno. Mae'n bwysig bod pobl yn gofyn am gydsyniad cyn iddynt wneud rhywbeth sy'n effeithio ar berson arall. Mae'n bwysig hefyd fod penderfyniad person yn cael ei barchu – os bydd yn dweud 'na' i rywbeth, yna ni ddylai'r person arall wneud y peth hwnnw. | **Cydsyniad** (Consent) Pan fo gan un person y rhyddid a'r gallu i roi cydsyniad gwybodus a rhydd i berson arall wneud rhywbeth sy'n effeithio arno. Mae'n bwysig bod pobl yn gofyn am gydsyniad cyn iddyn nhw wneud rhywbeth sy'n effeithio ar berson arall. Mae'n bwysig hefyd fod penderfyniad person yn cael ei barchu – os bydd yn dweud 'na' i rywbeth, yna ni ddylai'r person arall wneud y peth hwnnw. |
| **Cysonyn** (Constant) Gwerth nad yw'n amrywio, er enghraifft rhif sefydlog. | **Cysonyn** (Constant) Gwerth nad yw'n amrywio, er enghraifft rhif sefydlog. |
| **Chysonion** (Constants) Gwerthoedd nad ydyn nhw'n amrywio, er enghraifft rhifau sefydlog. | **Cysonion** (Constants) Gwerthoedd nad ydyn nhw'n amrywio, er enghraifft rhifau sefydlog. |
| **Cysgodi gweithredoedd** (Constructed action) Mae'r person sy'n arwyddo yn defnyddio ei wyneb, corff, dwylo a/neu giwiau eraill heblaw am y dwylo i bersonoli'r cyfeirydd ac yn cynrychioli ei weithredoedd, ymadrodd, meddyliau, teimladau a/neu agweddau. | **Cysgodi gweithredoedd** (Constructed action) Mae'r person sy'n arwyddo yn defnyddio ei wyneb, corff, dwylo a/neu giwiau eraill (heblaw am y dwylo) i bersonoli'r cyfeirydd a chynrychioli ei weithredoedd, ymadrodd, meddyliau, teimladau a/neu agweddau. |
| **Diwydiannau creadigol a diwylliannol** (Creative and cultural industries) Sectorau yn yr economi sy'n defnyddio talent greadigol at ddibenion masnachol. | **Diwydiannau creadigol a diwylliannol** (Creative and cultural industries) Sectorau yn yr economi sy'n defnyddio talent greadigol at ddibenion masnachol. |
| **addysg a phrofiadau byd Gwaith** (addysg a phrofiadau byd Gwaith) | **addysg a phrofiadau byd gwaith** (CWRE) Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith |

| | |
|---|---|
| **Testun creadigol** (Creative text) Gwrthrych neu gynnyrch artistig sy'n darparu llwyfan ar gyfer ystyr a mynegiant (unrhyw beth a gynhyrchir gan ddefnyddio dull creadigol, nid testun ysgrifenedig yn unig). | **Testunau creadigol** (Creative texts) Pob gwrthrych neu gynnyrch artistig sy'n darparu llwyfan ar gyfer ystyr a mynegiant, nid testunau ysgrifenedig yn unig. |
| **Ciwiau** (Cues) Ystyr a gyflëir drwy ystumiau, iaith y corff neu drwy ffurfiau di-eiriau eraill. | **Ciwiau** (Cues) Ystumiau, iaith y corf, neu ffurfiau di-eiriau eraill, sy'n cyfleu ystyr mewn cyd-destunau llafar. |
| **Cynefin** (Cynefin) Dyma'r man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod. Nid dim ond man yn yr ystyr ffisegol neu ddaearyddol ydyw, serch hynny. Dyma'r lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n parhau i ffurfio'r gymuned sy'n trigo yno. | **Cynefin** (Cynefin) Dyma'r man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod. Nid dim ond man yn yr ystyr ffisegol neu ddaearyddol ydyw, serch hynny. Dyma'r lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n parhau i ffurfio'r gymuned sy'n byw yno. |
| **Ddiwylliant Byddar** (Deaf Culture) Set o gredoau cymdeithasol, ymddygiadau, celf, traddodiadau llenyddol, hanes, gwerthoedd, a sefydliadau a rennir gan bobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu dewis iaith. Defnyddir ieithoedd arwyddion eraill megis Iaith Arwyddion America (ASL) ac Auslan mewn gwledydd eraill. | **Diwylliant Byddar** (Deaf Culture) Set o gredoau cymdeithasol, ymddygiadau, celf, traddodiadau llenyddol, hanes, gwerthoedd a sefydliadau a rennir gan bobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu dewis iaith. Defnyddir ieithoedd arwyddion eraill megis Iaith Arwyddion America (ASL) ac Auslan mewn gwledydd eraill. |
| **Manwl gywirdeb** (Degree of accuracy) Mae manwl gywirdeb yn fesur o ba mor agos a chywir yw gwerth wedi ei nodi i'r gwerth real sy'n cael ei ddisgrifio, e.e., gallwn gael gwerth sydd wedi ei dalgrynnu i'r 100 agosaf, i un lle degol neu i ddau ffigur ystyrlon. | **Manwl gywirdeb** (Degree of accuracy) Mesur o ba mor agos a chywir yw gwerth wedi ei nodi i'r gwerth real sy'n cael ei ddisgrifio, er enghraifft, gallwn gael gwerth sydd wedi ei dalgrynnu i'r 100 agosaf, i un lle degol neu i ddau ffigur ystyrlon. |
| **Egwyddorion dylunio** (Design principles) Yn y cyd-destun hwn mae'n golygu diffiniad, dadansoddi, dylunio, gweithredu, profi a chynnal a chadw. | **Egwyddorion dylunio** (Design principles) Ystyriaethau megis diffinio, dadansoddi, dylunio, gweithredu, profi a chynnal a chadw. |
| **Offer a strategaethau dylunio** (Design tools and strategies) Er enghraifft: ystyried cynhyrchion sy'n bodoli eisoes, dadelfennu, eu gwella a'u profi. | **Offer a strategaethau dylunio** (Design tools and strategies) Offer neu ddull a ddewiswyd i helpu i greu'r cynnyrch a ddymunir. |
| **Cymhwysedd digidol** (Digital competence) Set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n galluogi dysgwyr i ddefnyddio technolegau a systemau'n hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol. | **Cymhwysedd digidol** (Digital competence) Set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n galluogi dysgwyr i ddefnyddio technolegau a systemau'n hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol. |
| **Ôl troed digidol** (Digital footprint) defnyddir i ddisgrifio cofnod o weithgareddau dysgwr ar-lein. Gall hyn gynnwys cyfraniadau cyfryngau cymdeithasol, lluniau, gwefannau maen nhw wedi eu hoffi, eu rhannu neu ymuno â nhw, a chofnodion ymweld â lleoliad. | **Ôl troed digidol** (Digital footprint) Cofnod o weithgareddau dysgwr ar-lein. Gall hyn gynnwys cyfraniadau cyfryngau cymdeithasol, lluniau, gwefannau maen nhw wedi eu hoffi, eu rhannu neu ymuno â nhw, a chofnodion ymweld â lleoliad. |

| | |
|---|---|
| **Cysyniadau sy’n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth (**Discipline-specific concepts) Gwybodaeth, syniadau, profiadau a modelau sy’n llunio ac yn llywio’r broses greadigol a’r ffordd y caiff ei dadansoddi. | **Terminoleg sy’n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth** (Discipline-specific terminology) Termau arbenigol sy’n briodol i bob un o’r disgyblaethau yn y Maes Celfyddydau Mynegiannol. Gall fod ystyr wahanol i dermau yn y gwahanol ddisgyblaethau. |
| **Geirfa benodol i'r ddisgyblaeth** (Discipline-specific vocabulary) Termau a chysyniadau arbenigol sy’n briodol i bob un o’r disgyblaethau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol. Gall fod ystyr wahanol i eiriau cyffredin ar draws y gwahanol ddisgyblaethau. | **Geirfa benodol i'r ddisgyblaeth** (Discipline-specific vocabulary) Termau arbenigol sy’n briodol i bob un o’r disgyblaethau ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Gall fod ystyr wahanol i eiriau cyffredin ar draws y gwahanol ddisgyblaethau. |
| **Gwahaniaethu ffonemau** (Discriminate phonemes) Mae gwahaniaethu ffonem yn cyfeirio at y gallu i wahaniaethu rhwng y llafariaid a'r cytseiniaid, a elwir hefyd yn ffonemau, sy'n ffurfio geiriau iaith. | **Gwahaniaethu ffonemau** (Discriminate phonemes) Y gallu i weld y gwahaniaeth rhwng ffonemau, sef yr unedau sain lleiaf gwahanol sy'n cyfuno i ffurfio geiriau iaith. |
| **Thechnolegau aflonyddgar** (Disruptive Technologies) Arloesedd sy'n newid yn sylweddol y ffordd y mae defnyddwyr, diwydiannau neu fusnesau'n gweithio. Er enghraifft, e-fasnach, technolegau symudol. | **Technolegau aflonyddgar** (Disruptive Technologies) Datblygiadau newydd sy'n newid yn sylweddol y ffordd y mae defnyddwyr, diwydiannau neu fusnesau'n gweithio. Er enghraifft, e-fasnach, a thechnolegau symudol. |
| **Dosbarthol** (Distributive) Cyfeirio at ddeddf sy'n nodi bod lluosi rhif efo grŵp o rifau sydd wedi'u hadio at ei gilydd, yr un peth ag adio pob swm lluosi ar wahân: a(b + c) = a × b + a × c. | **Dosbarthol** (Distributive) Yn ymwneud â deddf sy'n nodi bod lluosi rhif efo grŵp o rifau sydd wedi'u hadio at ei gilydd, yr un peth ag adio pob swm lluosi ar wahân, er enghraifft, a (b + c) = a × b + a × c. |
| **Dosbarthedd** (Distributivity) Deddf yw hon sy'n nodi bod lluosi rhif efo grŵp o rifau sydd wedi'u hadio at ei gilydd, yr un peth ag adio pob swm lluosi ar wahân: a(b + c) = a × b + a × c. | **Dosbarthedd** (Distributivity) Deddf yw hon sy'n nodi bod lluosi rhif efo grŵp o rifau sydd wedi'u hadio at ei gilydd, yr un peth ag adio pob swm lluosi ar wahân, er enghraifft, a(b + c) = a × b + a × c. |
| **Rhai sy'n ysgwyddo dyletswydd** (Duty bearers) oedolion sy'n gyfrifol am hyrwyddo a chynnal hawliau plant; gan gynnwys staff mewn ysgolion a lleoliadau. | **Rhai sy'n ysgwyddo dyletswydd** (Duty bearers) Oedolion sy'n gyfrifol am hyrwyddo a chynnal hawliau plant; gan gynnwys staff mewn ysgolion a lleoliadau. |
| **Dyletswyddau (Duties)** Gofynion cyfreithiol sy'n golygu bod yn rhaid eu gwneud neu beidio â'u gwneud. Mae yn erbyn y gyfraith i beidio â gwneud yr hyn sy'n ofynnol gan ddyletswydd. Yn y canllawiau hyn, caiff dyletswyddau fel arfer eu dynodi pethau y mae'n 'rhaid' eu gwneud; er enghraifft 'rhaid i benaethiaid ysgol gynllunio cwricwlwm i ddysgwyr yr ysgol'. | **Dyletswydd** (Duty) Gofyniad cyfreithiol bod yn rhaid i rywbeth gael ei wneud neu beidio â chael ei wneud. Mae yn erbyn y gyfraith i beidio â gwneud yr hyn sy'n ofynnol gan ddyletswydd. Yn y canllawiau hyn, caiff dyletswydd fel arfer ei dynodi'n rhywbeth y mae'n 'rhaid' ei wneud, er enghraifft 'rhaid i benaethiaid ysgol gynllunio cwricwlwm i ddysgwyr yr ysgol'. |

| | |
|---|---|
| **Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY)** (English as an additional language (EAL)) Yn cyfeirio at ddysgu ac addysgu Saesneg pan nad Cymraeg na Saesneg yw mamiaith y dysgwr. | **Saesneg fel iaith ychwanegol** (English as an additional language) Dysgu ac addysgu Saesneg pan nad Cymraeg na Saesneg yw mamiaith y dysgwr. |
| **Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)** (Education other than at school (EOTAS)) Addysg a ariennir gan yr awdurdod lleol sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am ba reswm bynnag, fynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. | **Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)** (Education other than at school (EOTAS)) Addysg a ariennir gan yr awdurdod lleol sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn mynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. |
| **Elfennau** (Elements) Elfennau celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol. | **Elfennau** (Elements) Cydrannau celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol. |
| **Cyflogwyr** (Employers) unigolion a sefydliadau sy'n cyflogi. Gall hyn gynnwys pobl sy'n hunangyflogedig. Defnyddir y term hwn yn gyfannol o fewn y canllawiau i ddal ehangder yr unigolion a'r sefydliadau dan sylw gan gynnwys cyflogeion, entrepreneuriaid, pobl hunangyflogedig, busnesau bach a chanolig a sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. | **Cyflogwyr** (Employers) Unigolion a sefydliadau sy'n cyflogi. Gall hyn gynnwys pobl sy'n hunangyflogedig. Defnyddir y term hwn yn gyfannol o fewn y canllawiau i ddal ehangder yr unigolion a'r sefydliadau dan sylw, entrepreneuriaid, pobl hunangyflogedig, busnesau bach a chanolig a sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. |
| **Profiadau menter** (Enterprise experiences) cyfleoedd drwy brofiadau ymarferol i helpu dysgwyr i ddeall sut i ddechrau busnes a meithrin eu sgiliau hanfodol. Ymysg yr enghreifftiau mae creu syniadau, dysgu am heriau gweithio fel rhan o dîm, swyddogaethau gwaith a busnes, yn ogystal â deall arian. | **Profiadau menter** (Enterprise experiences) Cyfleoedd drwy brofiadau ymarferol i helpu dysgwyr i ddeall sut i ddechrau busnes a meithrin eu sgiliau hanfodol. Ymysg yr enghreifftiau mae creu syniadau, dysgu am heriau gweithio fel rhan o dîm, a swyddogaethau gwaith a busnes, yn ogystal â deall arian. |
| **Sgiliau entrepreneuraidd** (Entrepreneurial skills) cyfres o sgiliau sy'n galluogi pobl i nodi cyfleoedd a gwneud y gorau ohonyn nhw, goresgyn rhwystrau a dysgu ohonyn nhw, a llwyddo. Maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr ac maen nhw'n nodwedd hanfodol i bobl hunangyflogedig. | **Sgiliau entrepreneuraidd** (Entrepreneurial skills) Cyfres o sgiliau sy'n galluogi pobl i nodi cyfleoedd a gwneud y gorau ohonyn nhw, goresgyn rhwystrau a dysgu ohonyn nhw, a llwyddo. Maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr ac maen nhw'n nodwedd hanfodol i bobl hunangyflogedig. |
| **Epistemig** (Epistemic) Yn ymwneud â gwybodaeth neu'r weithred neu'r ffyrdd o wybod. | **Epistemig** (Epistemic) Yn ymwneud â gwybodaeth, neu'r weithred neu'r ffyrdd o wybod. |
| **Tegwch** (Equity) Triniaeth deg a diduedd, gan gynnwys triniaeth gyfartal neu driniaeth wahaniaethol er mwyn unioni anghydbwysedd o ran hawliau, buddiannau, rhwymedigaethau a chyfleoedd. | **Tegwch** (Equity) Triniaeth deg a diduedd, gan gynnwys triniaeth gyfartal neu driniaeth wahaniaethol er mwyn unioni anghydbwysedd o ran hawliau, buddiannau, rhwymedigaethau a chyfleoedd. |
| **Ystyriaethau moesegol** (Ethical considerations) Yn ymwneud ag egwyddorion moesegol a moesol. | **Ystyriaethau moesegol** (Ethical considerations) Ystyriaethau sy'n ymwneud ag egwyddorion moesegol a moesol. |

| | |
|---|---|
| **Archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol** (Exploration of the Expressive Arts) Ymchwiliad i natur y Celfyddydau Mynegiannol, gwybodaeth am y Celfyddydau Mynegiannol a chaffael y sgiliau angenrheidiol i ymgysylltu â'r ystod o ddisgyblaethau mewn modd ymarferol a damcaniaethol. | **Archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol** (Exploration of the Expressive Arts) Mae hwn yn ymwneud ag ymchwiliad i natur y Celfyddydau Mynegiannol, gwybodaeth am y Celfyddydau Mynegiannol a chaffael y sgiliau angenrheidiol i ymgysylltu â'r ystod o ddisgyblaethau mewn modd ymarferol a damcaniaethol. |
| **Archwilio drwy'r Celfyddydau Mynegiannol** (Exploration through the Expressive Arts) Yn gweithredu sgiliau a gwybodaeth am y Celfyddydau Mynegiannol i lywio a chefnogi creadigrwydd a gwaith creadigol. 'Trwy' y math hwn o archwilio yr ydym yn gallu gwneud cysylltiadau rhyngddisgyblaethol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, yn ogystal â chefnogi cysylltiadau gyda'r meysydd dysgu a phrofiad eraill. | **Archwilio drwy'r Celfyddydau Mynegiannol** (Exploration through the Expressive Arts) Mae hwn yn gweithredu sgiliau a gwybodaeth am y Celfyddydau Mynegiannol i lywio a chefnogi creadigrwydd a gwaith creadigol. 'Trwy' y math hwn o archwilio yr ydym yn gallu gwneud cysylltiadau rhyngddisgyblaethol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, yn ogystal â chefnogi cysylltiadau gyda'r meysydd dysgu a phrofiad eraill. |
| **Esbonyddion** (Exponents) Y nifer o weithiau mae rhif yn cael ei luosi gyda'i hun. Er enghraifft, mae 2 i'r 3ydd (ysgrifenedig fel hyn: $2^3$) yn golygu: 2 x 2 x 2 = 8 | **Esbonyddion** (Exponents) Y nifer o weithiau mae rhif yn cael ei luosi gyda'i hun. Er enghraifft, mae 2 i'r 3ydd (wedi'i ysgrifennu fel: $2^3$) yn golygu: 2 x 2 x 2 = 8 |
| **Ffactorau** (Factors) Rhywbeth sy'n effeithio ar ddigwyddiad, penderfyniad neu sefyllfa. Yn y dyniaethau, mae ffactorau'n cael eu categoreiddio yn wleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol, amgylcheddol neu grefyddol. | **Ffactorau** (Factors) Materion sy'n effeithio ar ddigwyddiad, penderfyniad neu sefyllfa. Yn y dyniaethau, mae ffactorau'n aml yn cael eu categoreiddio yn wleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol, amgylcheddol neu'n grefyddol. |
| **Ffilm a'r cyfryngau digidol** (Film and digital media) Teledu, ffilm, radio, dylunio gemau, ffotograffiaeth, cynhyrchu digwyddiadau byw, cyfryngau print, cyfryngau cymdeithasol. | **Ffilm a'r cyfryngau digidol** (Film and digital media) Teledu, ffilm, radio, dylunio gemau, ffotograffiaeth, cynhyrchu digwyddiadau byw, cyfryngau print, a'r cyfryngau cymdeithasol. |
| **Sgiliau echddygol manwl** (Fine motor skills) Sgiliau sy'n gofyn am reolaeth gyhyrol gain a lle y bydd rhai rhannau penodol o'r corff yn symud o fewn ardal gyfyngedig er mwyn creu ymatebion cywir. | **Sgiliau echddygol manwl** (Fine motor skills) Sgiliau sy'n gofyn am reolaeth gyhyrol gain a lle y bydd rhai rhannau penodol o'r corff yn symud o fewn ardal gyfyngedig er mwyn creu ymatebion cywir. |
| **Unradd** (First degree) Mae hafaliadau unradd yn hafaliadau ble mae'r ebsonydd uchaf yn 1. Mae hafaliadau llinol yn enghreifftiau o hafaliadau unradd. | **Unradd** (First degree) Yn ymwneud â hafaliadau lle mai'r esbonydd uchaf yw 1. Mae hafaliadau llinol yn enghreifftiau o hafaliadau unradd. |
| **Darllenwyr rhugl** (Fluent readers) Mae darllenwyr rhugl yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddarllen gyda chyflymder, cywirdeb, mynegiant a dealltwriaeth. | **Darllenwyr rhugl** (Fluent readers) Dysgwyr sy'n defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddarllen gyda chyflymder, cywirdeb, mynegiant a dealltwriaeth. |
| **Ffwythiant** (Function) Perthynas rhwng dwy set sy'n cysylltu aelod unigryw o'r ail set gyda phob aelod o'r set gyntaf. | **Ffwythiant** (Function) Perthynas rhwng dwy set sy'n cysylltu aelod unigryw o'r ail set gyda phob aelod o'r set gyntaf. |

| | |
|---|---|
| **Ffwythiannau** (Function) Perthnasoedd rhwng dwy set sy'n cysylltu aelod unigryw o'r ail set gyda phob aelod o'r set gyntaf. | **Ffwythiannau** (Functions) Perthynas rhwng dwy set sy'n cysylltu aelod unigryw o'r ail set gyda phob aelod o'r set gyntaf. |
| **Rhywedd** (Gender) fe'i defnyddir yn aml i nodi a yw rhywun yn ystyried ei hun yn fenywaidd, yn wrywaidd neu'n anneuaidd. Mae rhywedd yn gallu cyfeirio hefyd at y normau cymdeithasol a diwylliannol a'r gwahaniaethau sy'n cael eu dal gan wahanol gymdeithasau ynglyn a'r ffordd y mae pobl yn ymddwyn, yn edrych neu yn wisgo. Mae pobl yn aml yn canfod ymdeimlad pwysig o hunaniaeth yn y rhain ond gallan nhw hefyd barhau gwahaniaeth, anghydraddoldebau a niweidiau. | **Rhywedd** (Gender) At ddibenion y canllawiau hyn, mae 'rhywedd' yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at ymdeimlad mewnol rhywun o fod yn fenyw, yn wryw neu'n anneuaidd. Nid yw rhywedd pobl bob amser yn cyd-fynd â'r rhyw a bennwyd iddynt adeg eu geni . Mae adran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y Fframwaith hwn yn rhoi mwy o wybodaeth. |
| **Trais ar sail rhywedd** (Gender-based violence GBV) (a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddwch sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol; (b) anffurfio organau cenhedlu benywod; (c) gorfodi person (boed hynny drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (p'un a yw'n gyfreithiol gyfrwymol ai peidio). | **Trais ar sail rhywedd** (Gender-based violence GBV) (1) Trais, bygythiadau o drais neu aflonyddwch sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol; (2) anffurfio organau cenhedlu benywod; (3) gorfodi person (boed hynny drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (p'un a yw'n gyfreithiol gyfrwymol ai peidio). |
| **Genre** (Genre) Arddull neu gategori o fynegiant creadigol (gan gynnwys llenyddiaeth) sy'n rhannu nodweddion penodol. | **Genre** (Genre) Arddull neu gategori o fynegiant creadigol (gan gynnwys llenyddiaeth). |
| **Genres** (Genres) Arddulliau neu gategorïau o fynegiant creadigol (gan gynnwys llenyddiaeth) sy'n rhannu nodweddion penodol. | **Genres** (Genres) Arddulliau neu gategorïau o fynegiant creadigol (gan gynnwys llenyddiaeth). |
| **Germau** (Germs) Micro-organebau, yn enwedig y rheini sy'n achosi clefydau. | **Germau** (Germs) Micro-organebau, yn enwedig y rheini sy'n achosi clefydau. |
| **Cyfatebiaeth graffem-ffonem (**Grapheme-phoneme correspondence) **Y cysylltiadau rhwng llythyrau, neu gyfuniadau o lythrennau (graffemau), a'r seiniau llafar (ffonemau) y maen nhw'n eu cynrychioli. Ffonemau yw unedau sain lleiaf lleferydd** | **Cyfatebiaeth graffem-ffonem (Grapheme-phoneme correspondence)** Y cysylltiadau rhwng llythyrau, neu gyfuniadau o lythrennau (graffemau), a'r seiniau llafar (ffonemau) y maen nhw'n eu cynrychioli. Ffonemau yw unedau sain lleiaf lleferydd. Wrth i ddysgwyr ddysgu darllen, maen nhw'n cyfuno'r rhain i ddadgodio geiriau. |
| **Sgiliau echddygol bras** (Gross motor skills) Sgiliau sy'n defnyddio llawer o grwpiau o gyhyrau ac sy'n gofyn i'r corff cyfan symud, e.e. rhedeg. | **Sgiliau echddygol bras** (Gross motor skills) Sgiliau sy'n defnyddio llawer o grwpiau o gyhyrau ac sy'n gofyn i'r corff cyfan symud, er enghraifft, rhedeg. |
| **Dosbarthyddion gafael** (Handling classifiers) Mae ffurf y llaw mewn arwydd yn cynrychioli llaw/dwylo yn dal neu'n defnyddio gwrthrych. | **Dosbarthyddion gafael** |

| | |
|---|---|
| | (Handling classifiers) Mae ffurf y llaw mewn arwydd yn cynrychioli llaw/dwylo yn dal neu'n defnyddio gwrthrych. |
| **Ystyried** (Have regard) Rhaid i berson roi sylw i'r canllawiau yn ofalus cyn gwneud penderfyniad neu benderfynu ar bolisi. Ar ôl gwneud hynny, byddai angen bod rheswm da dros gyfiawnhau peidio â chydymffurfio â nhw. Mae'n rhaid bod sail dystiolaeth gadarn dros beidio â chydymffurfio â nhw. | **Ystyried** (Have regard) Rhoi sylw i'r canllawiau yn ofalus cyn gwneud penderfyniad neu benderfynu ar bolisi. Ar ôl gwneud hynny, byddai angen bod rheswm da dros gyfiawnhau peidio â chydymffurfio â nhw . Mae'n rhaid bod sail dystiolaeth gadarn dros beidio â chydymffurfio â nhw. |
| **Geiriau aml eu defnydd** (High-frequency words) Dyma'r geiriau sy'n codi amlaf mewn iaith. Mae llawer ohonyn nhw'n gyffredin iawn, er enghraifft: 'y', 'a', 'mae', ac mae eu hadnabod yn gallu helpu dysgwr i ddatblygu rhuglder. | **Geiriau aml eu defnydd** (High-frequency words) Dyma'r geiriau sy'n codi amlaf mewn iaith. Mae llawer ohonyn nhw'n gyffredin iawn, er enghraifft: 'y', 'a', 'mae', ac mae eu hadnabod yn gallu helpu dysgwr i ddatblygu rhuglder. |
| **Unfathiant** (Identity) Mae unfathiant yn dangos bod dau fynegiad wastad yn hafal i'w gilydd, dim ots beth yw gwerth unrhyw newidynnau sy'n cael eu defnyddio. Y symbol ar gyfer unfathiant yw ≡. Sylwch ei fod yn defnyddio tair llinell lorweddol, nid dwy fel sydd gan hafalnod. Mae $2(x + 3) \equiv 2x + 6$ yn enghraifft o unfathiant. | **Unfathiant** (Identity) Mae unfathiant yn dangos bod dau fynegiad wastad yn hafal i'w gilydd, dim ots beth yw gwerth unrhyw newidynnau sy'n cael eu defnyddio. Y symbol ar gyfer unfathiant yw ≡. Sylwch ei fod yn defnyddio tair llinell lorweddol, nid dwy fel sydd gan hafalnod. Mae $2(x + 3) \equiv 2x + 6$ yn enghraifft o unfathiant. |
| **Ideoleg** (Ideology) System o syniadau a delfrydau, neu gyfres o gredoau a nodweddiadau o unigolyn neu grŵp gymdeithasol, sy'n gallu ffurfio sail i theori neu bolisi megis economaidd neu wleidyddol. | **Ideoleg** (Ideology) System o syniadau a delfrydau, neu gyfres o gredoau a nodweddion unigolyn neu grŵp gymdeithasol, sy'n gallu ffurfio sail i theori neu bolisi megis economaidd neu wleidyddol. |
| **Priodiaith** (Idiolect) Ffordd unigryw o siarad person neu grŵp o bobl. | **Priodiaith** (Idiolect) Ffordd unigryw person neu grŵp o bobl o ddefnyddio iaith. |
| **Iaith idiomatig** (Idiomatic language) Defnyddio geiriau ac ymadroddion mewn ffordd sy'n swnio'n naturiol i siaradwyr brodorol yr iaith, er enghraifft yn Gymraeg: fel arfer, o dro i dro; yn Saesneg: on the contrary, get over something; ac yn Ffrangeg: J'ai 10 ans. | **Iaith idiomatig** (Idiomatic language) Geiriau ac ymadroddion sy'n swnio'n naturiol i ddefnyddwyr brodorol yr iaith, er enghraifft yn Gymraeg: 'fel arfer', ac 'o dro i dro'; yn Saesneg: 'on the contrary', and 'get over' something; ac yn Ffrangeg: 'J'ai dix ans'. |
| **Ffracsiwn pendrwm** (Improper fraction) Dyma'r enw ar ffracsiwn cyffredin lle mae'r rhifiadur yn fwy na'r enwadur, e.e. 8/5 ac 13/11 | **Ffracsiwn pendrwm** (Improper fraction) Dyma'r enw ar ffracsiwn cyffredin lle mae'r rhifiadur yn fwy na'r enwadur, er enghraifft 8/5 ac 13/11. |
| **Cynhwysol** (Inclusive) y broses o atgyfnerthu gallu'r system addysg i gyrraedd pob dysgwr. Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb gynhwysol yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth a gwahaniaeth ar draws amrediad o hunaniaethau sy'n gysylltiedig â chydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb, | **Cynhwysol** (Inclusive) Yn ymwneud â'r broses o atgyfnerthu gallu'r system addysg i gyrraedd pob dysgwr. Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb gynhwysol yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth a gwahaniaeth ar draws amrediad o hunaniaethau sy'n gysylltiedig â |

| | |
|---|---|
| a bod yr amrywiaeth hon yn ffynhonnell cryfder ac yn greiddiol i gymdeithas gydlynol, deg a chyfiawn. | chydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb, a bod yr amrywiaeth hon yn ffynhonnell cryfder ac yn greiddiol i gymdeithas gydlynol, deg a chyfiawn. |
| **Cyfanrif** (Integer) Mae cyfanrif yn unrhyw rif heb ddarn ffracsiynol neu ddegol, er enghraifft 8 neu –4. Mae cyfanrifau yn cynnwys y rhifau cyfan, sero, a negatif y rhifau cyfan. | **Cyfanrif** (Integer) Unrhyw rif heb ddarn ffracsiynol neu ddegol, er enghraifft 8 neu –4. Mae cyfanrifau yn cynnwys y rhifau cyfan, sero, a negatif y rhifau cyfan. |
| **Cyfanrifau** (Integers) Mae cyfanrifau'n unrhyw rif heb ddarn ffracsiynol neu ddegol, er enghraifft 8 neu –4. Mae cyfanrifau yn cynnwys y rhifau cyfan, sero, a negatif y rhifau cyfan. | **Cyfanrifau** (Integers) Unrhyw rifau heb ddarn ffracsiynol neu ddegol, er enghraifft 8 neu –4. Mae cyfanrifau yn cynnwys y rhifau cyfan, sero, a negatif y rhifau cyfan. |
| **Dull integredig** (Integrated approach) Dull gweithredu a nodweddir gan yr arfer o addysgu cyfuniad o gelf, cerddoriaeth, dawns, drama a ffilm a’r cyfryngau digidol mewn un wers ac nid ar wahân. | **Dull integredig** (Integrated approach) Addysgu cyfuniad o gelf, cerddoriaeth, dawns, drama a ffilm a’r cyfryngau digidol mewn un wers ac nid ar wahân. |
| **Rhyng-ddibyniaethau** (Interdependencies) Disgrifio'r cydberthnasau, dibyniaeth a rhyngweithio rhwng ac o fewn amgylcheddau, ffenomena cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd. | **Rhyng-ddibyniaethau** (Interdependencies) Y cydberthnasau, dibyniaeth a rhyngweithio rhwng ac o fewn amgylcheddau, a ffenomena cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd. |
| **Dull rhyngddisgyblaethol** (Interdisciplinary approach) Dull gweithredu lle mae’r broses greadigol yn cysylltu’r dysgu sy’n digwydd mewn meysydd disgyblaeth unigol. | **Dull rhyngddisgyblaethol** (Interdisciplinary approach) Pan fydd y broses greadigol yn cysylltu’r dysgu sy’n digwydd mewn meysydd disgyblaeth unigol. |
| **Ieithoedd rhyngwladol** (International languages) Yn cyfeirio at ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg a ddysgir yn yr ysgol sy’n gallu cynnwys ieithoedd cymunedol, ieithoedd modern, ieithoedd clasurol ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL). | **Ieithoedd rhyngwladol** (International languages) Ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg a ddysgir yn yr ysgol sy’n gallu cynnwys ieithoedd cymunedol, ieithoedd modern, ieithoedd clasurol ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL). |
| **Ieithoedd rhyngwladol** (International languages) Yn cyfeirio at ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg a ddysgir yn yr ysgol sy’n gallu cynnwys ieithoedd cymunedol, ieithoedd modern, ieithoedd clasurol ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL). | **Ieithoedd rhyngwladol** (International languages) Ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg a ddysgir yn yr ysgol, sy’n gallu cynnwys ieithoedd cymunedol, ieithoedd modern, ieithoedd clasurol ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL). |
| **Dehongliad** (Interpretation) Esboniad neu ffordd o egluro rhywbeth. Barn unigolyn sy’n seiliedig ar y dystiolaeth maen nhw wedi ei gweld. | **Dehongliad** (Interpretation) Esboniad neu ffordd o egluro rhywbeth pan fo barn unigolyn yn seiliedig ar y dystiolaeth maen nhw wedi ei gweld. |
| **dehongliadau** (Interpretation) Esboniad neu ffordd o egluro rhywbeth. Barn unigolyn sy’n seiliedig ar y dystiolaeth maen nhw wedi ei gweld. | **Dehongliadau** (Interpretations) Esboniad neu ffordd o egluro rhywbeth pan fo barn unigolyn yn seiliedig ar y dystiolaeth maen nhw wedi ei gweld. |
| **Rhyngberthnasau** (Inter-relationships) Disgrifio'r cysylltiadau a'r rhyngweithio rhwng ffenomena. Yn y dyniaethau, mae hyn yn | **Rhyng-berthnasau** (Inter-relationships) Y cysylltiadau a'r rhyngweithio rhwng ffenomena. Yn y dyniaethau, mae hyn yn |

| | |
|---|---|
| cynnwys cysyltiadau rhwng ac o fewn disgyblaethau, dros amser, gofod, diwylliannau a chrefyddau. | cynnwys cysyltiadau rhwng ac o fewn disgyblaethau, dros amser, ac ar draws gofod, diwylliannau a chrefyddau. |
| **Rhyng-berthnasau** (Inter-relationships) Disgrifio'r cysylltiadau a'r rhyngweithio rhwng ffenomena. Yn y dyniaethau, mae hyn yn cynnwys cysyltiadau rhwng ac o fewn disgyblaethau, dros amser, gofod, diwylliannau a chrefyddau. | **Rhyng-berthnasau** (Inter-relationships) Y cysylltiadau a'r rhyngweithio rhwng ffenomena. Yn y dyniaethau, mae hyn yn cynnwys cysyltiadau rhwng ac o fewn disgyblaethau, dros amser, ac ar draws gofod, diwylliannau a chrefyddau. |
| **Gwrthdro** (Inverse) Gwrthdro mathemategol yw troi rhywbeth yn ôl i'r gwrthwyneb. Gallwn feddwl am hyn yng nghyd-destun gweithrediadau mathemategol. Gwrthdro adio yw tynnu, er enghraifft: 5 + 6 = 11. Gallwn wrthdroi hyn trwy dynnu: 11 – 6 = 5. Felly, 5 + 6 – 6 = 5 | **Gwrthdro** (Inverse) Gwrthdro mathemategol yw troi rhywbeth i'r gwrthwyneb. Gallwn feddwl am hyn yng nghyd-destun gweithrediadau mathemategol. Gwrthdro adio yw tynnu. Er enghraifft: 5 + 6 = 11. Gallwn wrthdroi hyn trwy dynnu: 11 – 6 = 5. Felly, 5 + 6 – 6 = 5. |
| **Afreolaidd** (Irregular) Mae'r term afreolaidd yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio polygon lle nad yw pob un o'r ochrau yn hafal, neu nid yw pob un o'r onglau yn hafal. Mae petryalau a rhombi yn enghreifftiau o bolygonau pedrochr afreolaidd. Mae pob un o onglau petryal yn hafal (onglau sgwâr), ond nid yw pob un o'r ochrau yn hafal. Mae pob un o ochrau rhombws yn hafal, ond nid yw pob un o'r onglau yn hafal. | **Afreolaidd** (Irregular) Mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio polygon lle nad yw pob un o'r ochrau yn hafal, neu nid yw pob un o'r onglau yn hafal. Mae petryalau a rhombi yn enghreifftiau o bolygonau pedrochr afreolaidd. Mae pob un o onglau petryal yn hafal (onglau sgwâr), ond nid yw pob un o'r ochrau yn hafal. Mae pob un o ochrau rhombws yn hafal, ond nid yw pob un o'r onglau yn hafal. |
| **Iterus** (Iterative) Ailadrodd gweithdrefn fathemategol yn cael ei gymhwyso i gymhwysiad blaenorol. | **Iterus** (Iterative) Mae hwn yn disgrifio'r weithred o ailadrodd proses i gynhyrchu dilyniant o ganlyniadau. Mae pob ailadroddiad unigol yn iteriad. |
| **Gwybodaeth** (Knowledge) Ffeithiau, gwybodaeth a sgiliau wedi eu caffael trwy brofiad neu addysg; dealltwriaeth ddamcaniaethol neu ymarferol o ddisgyblaeth. | **Gwybodaeth** (Knowledge) Ffeithiau, gwybodaeth a sgiliau wedi eu caffael trwy brofiad neu addysg; dealltwriaeth ddamcaniaethol neu ymarferol o ddisgyblaeth. |
| **Gwybodaeth am y farchnad lafur** (Labour market information) cwmpasu ystadegau, ymchwil a gwaith dadansoddi sy'n gysylltiedig â thueddiadau economaidd a swyddi presennol ac yn y dyfodol. Caiff ei defnyddio i lywio a chefnogi penderfyniadau cynllunio gyrfaoedd. | **Gwybodaeth am y farchnad lafur** (Labour market information) Mae'r wybodaeth yn cwmpasu ystadegau, ymchwil a gwaith dadansoddi sy'n gysylltiedig â thueddiadau economaidd a swyddi presennol ac yn y dyfodol. Caiff ei defnyddio i lywio a chefnogi penderfyniadau cynllunio gyrfaoedd. |
| **Deddfau rhifyddeg** (Laws of arithmetic) Mae tair deddf rhifyddeg. Y ddeddf gysylltiadol, y ddeddf gymudol a'r ddeddf ddosbarthol. | **Deddfau rhifyddeg** (Laws of arithmetic) Mae tair deddf rhifyddeg: y ddeddf gysylltiadol, y ddeddf gymudol a'r ddeddf ddosbarthol. |
| **Rhoi lle canolog i'r dysgwr** (Learner-centred) Y dull o ganiatáu i'r dysgwyr gymryd cyfrifoldeb o ran beth y byddan nhw'n ei | **Rhoi lle canolog i'r dysgwr** (Learner-centred) Yn ymwneud â'r dull o ganiatáu i'r dysgwyr gymryd cyfrifoldeb o ran beth y |

| | |
|---|---|
| ddysgu, a gwneud penderfyniadau ynghylch hyn hefyd. Bydd yr oedolyn yno i hwyluso’r dysgu. | byddan nhw’n ei ddysgu, a gwneud penderfyniadau ynghylch hyn hefyd. Bydd yr oedolyn yno i hwyluso’r dysgu. |
| **Rhoi’r lle canolog i’r dysgwr** (Learner-centred) Y dull o ganiatáu i’r dysgwyr gymryd cyfrifoldeb o ran beth y byddan nhw’n ei ddysgu, a gwneud penderfyniadau ynghylch hyn hefyd. Bydd yr oedolyn yno i hwyluso’r dysgu. | **Arsyllfa dysgu a sgiliau** (Learning and skills observatory) System wybodaeth partneriaeth sgiliau rhanbarthol ar-lein, sy'n cynnig data a gwybodaeth leol am anghenion sgiliau. |
| **Lensys** (Lenses) Y ffyrdd amrywiol mae pobl yn gweld neu ddeall rhywbeth. Yng nghyd-destun hwn, mae’r disgyblaethau sy’n rhan o’r Dyniaethau yn cynnig gwahanol ffyrdd o weld y profiad dynol. | **Lensys** (Lenses) Y ffyrdd amrywiol mae pobl yn gweld neu ddeall rhywbeth. Yng nghyd-destun hwn, mae’r disgyblaethau sy’n rhan o’r Maes Dyniaethau yn cynnig gwahanol ffyrdd o weld y profiad dynol. |
| **LHDTC+** (LGBTQ+) pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsryweddol/traws, gwiar neu bobl sy'n cwestiynu. Mae'r + yn cyfeirio at lythrennau eraill y gellir eu hychwanegu i gynnwys hunaniaethau eraill, gan gynnwys anneuaidd. | **LHDTC+** (LGBTQ+) Mae’n cyfeirio at bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsryweddol/traws, pobl gwiar neu bobl sy'n cwestiynu. Gellir ychwanegu llythrennau at yr acronym i gynnwys grwpiau, cyfeiriadeddau a hunaniaethau eraill megis Rh (rhyngryw) ac A (arywiol/aramantaidd). Defnyddir yr arwydd + yn yr acronym fel llaw fer i gynnwys a chydnabod teramu amrywiol eraill y mae pobl yn uniaethu â nhw ac yn eu defnyddio i ddisgrifio eu hunaniaethau a’u cyfeiriadeddau, gan gynnwys pobl ryngryw, arywiol ac aramantaidd. |
| **Llinol** (Linear) Mae’n cyfeirio at derm neu dermau algebraidd i’r pŵer 1 (nid yw’r 1 yn cael ei ysgrifennu fel arfer). Mae x, 4y a –9z yn enghreifftiau o dermau llinol. Y gwrthwyneb i ‘llinol’ yw aflinol. | **Llinol** (Linear) Yn ymwneud â therm neu dermau algebraidd i’r pŵer 1 (nid yw’r 1 yn ymddangos fel arfer). Mae x, 4y a –9z yn enghreifftiau o dermau llinol. Gwrthwyneb llinol yw aflinol. |
| **Patrymau gwefus (Lip patterns)** Defnydd o ffurf gair Saesneg neu un debyg i’r Saesneg ar y gwefusau yn BSL e.e. ‘marvo’ yw patrwm y gwefusau ar gyfer ‘marvellous’. | **Patrymau gwefus** (Lip patterns) Defnyddio ffurf gair ar y gwefusau yn BSL, er enghraifft ‘marvo’ yw’r patrwm gwefus ar gyfer ‘marvellous’. |
| **Llenyddiaeth** (Literature) Testunau llafar, ysgrifenedig a gweledol sy'n deillio o'r dychymyg creadigol megis barddoniaeth, ffilm, drama, gwaith ffuglen a ffeithiol o wahanol gyfnodau a diwylliannau. Dylai'r gwaith fod yn ddigon cyfoethog a sylweddol i ennyn diddordeb dysgwyr yn ddeallusol ac yn emosiynol, i'w hannog i gael eu hysbrydoli, eu hysgogi a'u newid, ac i ymestyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd am lenyddiaeth. | **Lenyddiaeth** (Literature) testunau llafar, ysgrifenedig a gweledol sy'n deillio o'r dychymyg creadigol megis barddoniaeth, drama, gwaith ffuglen a ffeithiol o wahanol gyfnodau a diwylliannau. Dylai'r gwaith fod yn ddigon cyfoethog a sylweddol i ennyn diddordeb dysgwyr yn ddeallusol ac yn emosiynol, i'w hannog i gael eu hysbrydoli, eu hysgogi a'u newid, ac i ymestyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd am lenyddiaeth. |
| **Tonnau hydredol** (Longitudinal waves) Tonnau lle mae’r dirgryniad yn rhan o’r un plân â’r cyfeiriad teithio, e.e. tonnau sain. | **Tonnau hydredol** (Longitudinal waves) Tonnau lle mae’r dirgryniad yn rhan o’r un plân â’r cyfeiriad teithio, er enghraifft, tonnau sain. |

| | |
|---|---|
| **Trinolion** (Manipulatives) Offer ffisegol ar gyfer addysgu, sy'n ysgogi dysgwyr yn weledol ac yn ffisegol gan ddefnyddio gwrthrychau fel darnau arian, blociau, rhodenni, posau, ac yn y blaen. | **Trinolion** (Manipulatives) Offer ffisegol ar gyfer addysgu, sy'n ysgogi dysgwyr yn weledol ac yn ffisegol gan ddefnyddio gwrthrychau fel darnau arian, blociau, rhodenni, posau, ac yn y blaen. |
| **Model mathemategol** (Mathematical model) Disgrifiad o system gan ddefnyddio cysyniadau ac iaith fathemategol. Gallai helpu i egluro system, i astudio effeithiau gwahanol gydrannau ac i wneud rhagfynegiadau am ymddygiad. | **Model mathemategol** (Mathematical model) Model i ddisgrifio cysyniadau mathemategol haniaethol. Mae'r broses o ddatblygu modelau mathemategol yn cael ei alw'n fodelu mathemategol. |
| **Modelau mathemategol** (Mathematical models) Disgrifiadau o ddefnyddio cysyniadau ac iaith fathemategol. Gallan nhw helpu i egluro system, i astudio effeithiau gwahanol gydrannau ac i wneud rhagfynegiadau am ymddygiad. | **Modelau mathemategol** (Mathematical models) Disgrifiadau haniaethol o system ddiriaethol sy’n defnyddio cysyniadau ac iaith fathemategol. Gallan nhw helpu i egluro system, i astudio effeithiau gwahanol gydrannau ac i wneud rhagfynegiadau am ymddygiad. |
| **Mater** (Matter) Sylwedd ffisegol sy’n ffurfio defnyddiau. | **Mater** (Matter) Sylwedd ffisegol sy’n ffurfio defnyddiau. |
| **Mesur o ganolduedd** (Measure of central tendency) Mesur o ganolduedd yw cymedr, canolrif a modd. | **Mesurau canolduedd** (Measures of central tendency) Dyma'r cymedr, canolrif a modd. |
| **Mesurau canolduedd** (Measures of central tendency) Dyma'r cymedr, canolrif a modd. | **Mesur gwasgariad** (Measure of spread) Mae hwn yn disgrifio amrywiad yn y sampl neu’r boblogaeth, er enghraifft yr amrediad. |
| **Mesurau gwasgariad** (Measures of spread) Mae mesurau ystadegol yn cael eu defnyddio i ddisgrifio amrywiad yn y sampl neu'r boblogaeth, er enghraifft: yr amrediad. | **Mesurau gwasgariad** (Measures of spread) Mae’r rhain yn cael eu defnyddio i ddisgrifio amrywiad yn y sampl neu'r boblogaeth, er enghraifft, yr amrediad. |
| **Chyfryngu** (Mediate) cyfathrebu ystyr o un berson i berson arall o fewn iaith (aralleirio, crynhoi) neu o un iaith i iaith arall (cyfieithu, dehongli). Mae’r dysgwr yn cynorthwyo eraill i gyfathrebu gyda’i gilydd trwy rannu, esbonio neu gyfieithu gwybodaeth neu syniadau. | **Cyfryngu** (Mediate) Cyfathrebu ystyr o un berson i berson arall o fewn yr un iaith (aralleirio, crynhoi) neu o un iaith i iaith arall (cyfieithu, dehongli). Mae’r dysgwr yn cynorthwyo eraill i gyfathrebu gyda’i gilydd trwy drosglwyddo, esbonio neu gyfieithu gwybodaeth neu syniadau. |
| **Cerrig milltir** (Milestones) Ymddygiadau neu sgiliau corfforol a welir mewn dysgwyr wrth iddyn nhw dyfu a datblygu. Bydd y cerrig milltir yn wahanol i bob ystod oedran. Wrth sôn am norm datblygiad, cyfeirir at gyfartaledd yr ystod oedran pan y gall dysgwr gyrraedd y cerrig milltir. | **Cerrig milltir** (Milestones) Ymddygiadau neu sgiliau corfforol a welir mewn dysgwyr wrth iddyn nhw dyfu a datblygu, ac sy’n wahanol i bob ystod oedran. Wrth sôn am norm datblygiad, cyfeirir at gyfartaledd yr ystod oedran pan y gall dysgwr gyrraedd y cerrig milltir. |

| | |
|---|---|
| **Cystrawennau morffolegol** (Morphological constructions) Cyfuniad o forffemau i wneud arwydd gyda sawl rhan ystyrlon ond sy'n arwydd ynddo'i hun | **Cystrawennau morffolegol** (Morphological constructions) Cyfuniad o forffemau i wneud arwydd gyda sawl rhan ystyrlon ond sy'n arwydd ynddo'i hun. |
| **Ystumiau ceg** (Mouthings) Defnyddio patrwm ceg neu ystum yn BSL sy'n gallu bod yn benodol iawn fel graeanu dannedd wrth arwyddo 'pori' neu 'gweithgaredd egnïol'. | **Ystumiau ceg** (Mouthings) Defnyddio patrwm ceg neu ystum yn BSL sy'n gallu bod yn benodol iawn, fel graeanu dannedd wrth arwyddo 'pori' neu 'gweithgaredd egnïol'. |
| **Amlieithog** (Multilingual) Yn cyfeirio at wybodaeth am sawl iaith neu bresenoldeb sawl iaith o fewn cymdeithas benodol ynghyd a'u defnyddio. Bydd gallu dysgwyr yn amrywio yn yr ieithoedd hyn a gallant eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol gyda phobl wahanol. | **Amlieithog** (Multilingual) Yn ymwneud â gwybodaeth am sawl iaith neu bresenoldeb sawl iaith o fewn cymdeithas benodol ynghyd â'r gallu i'w defnyddio. Bydd gallu dysgwyr yn amrywio yn yr ieithoedd hyn a gallan nhw eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol gyda phobl wahanol. |
| **Cydrannau aml-gyfryngol** (Multimedia components) Cydrannau aml-gyfryngol yw testun, sain, graffeg, fideo ac animeiddiadau. Mae'r cydrannau hyn gyda'i gilydd yn cynrychioli gwybodaeth mewn modd effeithiol a hylaw. | **Cydrannau aml-gyfryngol** (Multimedia components) Mae'r rhain yn destun, sain, graffeg, fideo ac animeiddiadau. Mae'r cydrannau hyn gyda'i gilydd yn cynrychioli gwybodaeth mewn modd effeithiol a hylaw. |
| **Cynyrchioliad lluosol** (Multiple representations) Cynyrchioli rhywbeth mewn ffyrdd gwahanol, e.e. cynyrchioli ffwythiant yn symbolaidd a graffigol. | **Cynyrchioliad lluosol** (Multiple representations) Cynyrchioli rhywbeth mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft, cynyrchioli ffwythiant yn symbolaidd a graffigol. |
| **Lluosol** (Multiplicative) Meintiau perthnasol sy'n gallu cael eu mynegi trwy ddefnyddio lluosi a rhannu. | **Lluosol** (Multiplicative) Yn ymwneud â meintiau perthnasol sy'n gallu cael eu mynegi trwy ddefnyddio lluosi a rhannu. |
| **Cyd-anghynhwysol** (Mutually exclusive) Dyma'r term am ddisgrifio digwyddiadau nad ydyn nhw'n gallu digwydd ar yr un pryd. Er enghraifft, wrth daflu dis, mae taflu 6 a thaflu 1 yn gyd-anghynhwysol. | **Cyd-anghynhwysol** (Mutually exclusive) Dyma'r term am ddisgrifio digwyddiadau nad ydyn nhw'n gallu digwydd ar yr un pryd. Er enghraifft, wrth daflu dis, mae taflu 6 a thaflu 1 yn gyd-anghynhwysol. |
| **Enwol** (Nominal) Rhif a ddefnyddir i enwi neu nodi rhywbeth ac nid fel gwerth neu safle arbennig. Er enghraifft, rhif bws neu rif ar gefn rhywun mewn tîm chwaraeon. | **Enwol** (Nominal) Rhif a ddefnyddir i enwi neu nodi rhywbeth ac nid fel gwerth neu safle arbennig, er enghraifft, rhif bws. |
| **Anenghraifft** (Non-example) Nid yw anenghraifft yn bodloni rheol na diffiniad. Mae'n darparu mwy o wybodaeth am beth a beth sydd ddim wedi ei gynnwys yn y rheol neu'r diffiniad. Byddai anenghreifftiau o driongl yn cynnwys sgwâr a pholygon agored gyda thair ochr. | **Anenghraifft** (Non-example) Rhywbeth nad yw'n bodloni rheol na diffiniad. Mae'n darparu mwy o wybodaeth am beth a beth sydd ddim wedi ei gynnwys yn y rheol neu'r diffiniad. Byddai anenghreifftiau o driongl yn cynnwys sgwâr a pholygon agored gyda thair ochr. |
| **Anenghrefftiau** (Non-examples) Nid yw'r rhain yn dilyn rheol neu ddiffiniad. Maen nhw'n cynnig mwy o wybodaeth am yr hyn | **Anenghrefftiau** (Non-examples) Nid yw'r rhain yn dilyn rheol neu ddiffiniad. Maen nhw'n cynnig mwy o wybodaeth am yr hyn |

| | |
|---|---|
| sydd yn cael ei gynnwys, neu ddim yn cael ei gynnwys, mewn rheol neu ddiffiniad. Byddai anenghreifftiau triongl yn cynnwys sgwar a pholygon tair ochr agored. | sydd yn cael ei gynnwys, neu ddim yn cael ei gynnwys, mewn rheol neu ddiffiniad. Byddai anenghreifftiau triongl yn cynnwys sgwar a pholygon tair ochr agored. |
| **Aflinol** (Non-linear) Mae'n cyfeirio at fynegiant algebraidd nad yw'n fynegiant llinol. | **Aflinol** (Non-linear) Yn ymwneud â mynegiant algebraidd nad yw'n fynegiant llinol. |
| **Unedau mesur ansafonol** (Non-standard unit of measure) Mae unedau mesur ansafonol yn unedau mesur sydd ddim yn nodweddiadol, e.e. pensil, braich neu esgid. | **Unedau mesur ansafonol** (Non-standard unit of measure) Mae'r rhain yn unedau mesur sydd ddim yn nodweddiadol, er enghraifft pensil, braich neu esgid. |
| **Rhifedd** (Numeracy) Set o sgiliau sy'n ein galluogi i ddefnyddio mathemateg i ddatrys problemau yn ein bywyd bob dydd. | **Rhifedd** (Numeracy) Set o sgiliau sy'n ein galluogi i ddefnyddio mathemateg i ddatrys problemau yn ein bywyd bob dydd. |
| **Trefnol** (Ordinal) Rhif sy'n disgrifio safle rhywbeth mewn cyfres yw rhif trefnol. Er enghraifft: cyntaf (1af), ail (2il), trydydd (3ydd), pedwerydd (4ydd), degfed (10fed), ugeinfed (20fed). | **Trefnol** (Ordinal) Rhif sy'n disgrifio safle rhywbeth mewn cyfres. Er enghraifft: cyntaf (1af), ail (2il), trydydd (3ydd), pedwerydd (4ydd), degfed (10fed), ugeinfed (20fed). |
| **Rhif trefnol** (Ordinal number) Rhif sy'n disgrifio safle rhywbeth mewn cyfres yw rhif trefnol. Er enghraifft: cyntaf (1af), ail (2il), trydydd (3ydd), pedwerydd (4ydd), degfed (10fed), ugeinfed (20fed), ac ati. | **Rhif trefnol** (Ordinal number) Rhif sy'n disgrifio safle rhywbeth mewn cyfres yw rhif trefnol. Er enghraifft, cyntaf (1af), ail (2il), trydydd (3ydd), pedwerydd (4ydd), degfed (10fed), ugeinfed (20fed), ac ati. |
| **Darparwyr eraill** (Other providers) Pob lleoliad addysg sy'n gweithio gyda Cwricwlwm i Gymru, ac eithrio ysgolion a gynhelir sy'n cael eu hariannu. | **Darparwyr eraill** (Other providers) Yn cyfeirio at bob lleoliad addysg sy'n defnyddio Cwricwlwm i Gymru, ac eithrio ysgolion a gynhelir sy'n cael eu hariannu. |
| **Canfyddiadau** (Perceptions) Y gallu i ddod yn ymwybodol o rywbeth trwy'r synhwyrau. | **Canfyddiadau** (Perceptions) Canfyddiad yw'r gallu i ddod yn ymwybodol o rywbeth trwy'r synhwyrau. |
| **Ffoneg** (Phonics) Astudiaeth o'r ffordd y mae symbolau'n cynrychioli'r seiniau sy'n ffurfio geiriau. Cyfres o ddulliau yw addysgu ffoneg ar gyfer dysgu darllen ac ysgrifennu cychwynnol, sy'n canolbwyntio ar y berthynas rhwng llythrennau a seiniau. | **Ffoneg** (Phonics) Astudiaeth o'r ffordd y mae symbolau'n cynrychioli'r seiniau sy'n ffurfio geiriau. Cyfres o ddulliau yw addysgu ffoneg ar gyfer dysgu darllen ac ysgrifennu cychwynnol, sy'n canolbwyntio ar y berthynas rhwng llythrennau a seiniau. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys datblygu'r defnydd o graffemau-ffonemau a chyfuno'r rhain i ddadgodio geiriau. Gweler Cynllunio eich cwricwlwm o dan adran Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ar gyfer y disgwyliadau ar addysgu ffoneg. |
| **Ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemig** (Phonological awareness and phonemic awareness) Fel arfer deellir ymwybyddiaeth ffonolegol fel y gallu i wahaniaethu rhwng nodweddion lleferydd, fel sillafau a ffonemau | **Ymwybyddiaeth ffonolegol ac ymwybyddiaeth ffonemeg** (Phonological awareness and phonemic awareness) Y gallu i wahaniaethu rhwng nodweddion lleferydd, fel sillafau a ffonemau a gallu rhannu dechrau |

| | |
|---|---|
| a gallu rhannu dechrau a diwedd gair. Is-set o ymwybyddiaeth ffonolegol yw ymwybyddiaeth ffonemig sy'n ymwneud â gallu'r gwrandäwr i wahaniaethu a thrin yr elfennau lleiaf, ystyrlon o sain mewn geiriau. | a diwedd gair. Is-set o ymwybyddiaeth ffonolegol yw ymwybyddiaeth ffonemig sy'n ymwneud â gallu'r gwrandäwr i wahaniaethu a thrin yr elfennau lleiaf, ystyrlon o sain mewn geiriau. |
| **Dyfais ffisegol** (Physical device) Datrysiadau digidol, e.e. gliniaduron, cyfrifiaduron llechen, ffonau. | **Dyfais ffisegol** (Physical device) Teclyn digidol, er enghraifft, gliniadur, llechen neu ffôn |
| **Allbynnau ffisegol** (Physical outputs) Fel arall a elwir yn cychwynnwr – cydran o beiriant sy'n gyfrifol am symud a rheoli mecanwaith neu system. | **Allbynnau ffisegol** (Physical outputs) Gair arall am hyn yw cychwynwyr – cydrannau peiriant sy'n gyfrifol am symud a rheoli mecanwaith neu system. |
| **Lle** (Place) Safle, pwynt neu ran o ofod; lleoliad sydd â hunaniaeth ac ystyr wedi'i greu gan bobl. | **Lle** (Place) Lleoliad, safle, pwynt neu ran o ofod sydd â hunaniaeth ac ystyr wedi'i greu gan bobl. |
| **Darfodiad bwriadus** (Planned obsolescence) Cynllunio neu ddylunio cynnyrch ag oes wedi'i gyfyngu mewn modd artiffisial fel y bydd yn dod yn anffasiynol neu'n anweithredol ar ôl cyfnod penodol o amser. | **Darfodiad bwriadus** (Planned obsolescence) Cynllunio neu ddylunio cynnyrch ag oes wedi'i gyfyngu mewn modd artiffisial fel y bydd yn dod yn anffasiynol neu'n anweithredol ar ôl cyfnod penodol o amser. |
| **Plwraliaeth** (Pluralism) System lle mae o leiaf ddau fydolwg, grŵp, egwyddor, tarddiad awdurdod ayb, yn cydfodoli. | **Plwraliaeth** (Pluralism) System lle mae o leiaf ddau fydolwg, grŵp, egwyddor, tarddiad awdurdod ayb, yn cydfodoli. |
| **Plwraliaethol** (Pluralistic) System lle mae dau neu fwy o fydolygon, grwpiau, egwyddorion, ffynonellau awdurdod, ac ati, yn cydfodoli. | **Plwraliaethol** (Pluralistic) Yn ymwneud â system lle mae dau neu fwy o fydolygon, grwpiau, egwyddorion, ffynonellau awdurdod, ac ati, yn cydfodoli. |
| **Prawf (**Proof) Mae prawf mathemategol yn ddadl sy'n ddiddwytho datganiad y dylid ei brofi, o ddatganiadau eraill a wyddir eu bod yn wir. | **Prawf** (Proof) Mae prawf mathemategol yn ddadl sy'n ddiddwytho datganiad y dylid ei brofi o ddatganiadau eraill a wyddir eu bod yn wir. |
| **Er lles y gymdeithas** (Pro-social) Ymddygiad sy'n gadarnhaol ac o gymorth, ac wedi'i fwriadu i hybu derbyniad cymdeithasol a chyfeillgarwch. | **Er lles y gymdeithas** (Pro-social) Ymddygiad sy'n gadarnhaol ac o gymorth, ac wedi'i fwriadu i hybu derbyniad cymdeithasol a chyfeillgarwch. |
| **Nodweddion gwarchodedig (**Protected characteristics) oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. | **Nodweddion gwarchodedig** (Protected characteristics) Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. |
| **Unedau cyfeirio disgyblion (Unedau)** (Pupil referral units (PRUs)) Math o ysgol a sefydlwyd ac a gynhelir gan awdurdod lleol yn unol ag adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n darparu ar gyfer plant nad ydynt yn gallu mynychu ysgol brif ffrwd. Caiff disgyblion eu hatgyfeirio'n aml os oes angen mwy o ofal a chymorth arnynt nag y gall eu hysgol | **Unedau cyfeirio disgyblion** (Pupil referral units (PRUs)) Math o ysgol a sefydlwyd ac a gynhelir gan awdurdod lleol yn unol ag adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n darparu ar gyfer plant nad ydyn nhw'n gallu mynychu ysgol brif ffrwd. Caiff dysgwyr eu hatgyfeirio'n aml os oes angen mwy o ofal a chymorth arnyn nhw nag y gall eu hysgol arferol ei |

| | |
|---|---|
| arferol ei ddarparu. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn diwygio adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig gyda'r adran 19A newydd ar gyfer Cymru yn unig. | ddarparu. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn diwygio adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig, gyda'r adran 19A newydd ar gyfer Cymru yn unig. |
| **Ansoddol** (Qualitative) Mae data ansoddol yn mesur 'mathau' a gallan nhw gael eu cynrychioli gan enw, symbol neu god rhif. | **Ansoddol** (Qualitative) Yn ymwneud â data sy’n mesur 'mathau' a gallan nhw gael eu cynrychioli gan enw, symbol neu god rhif. |
| **Meintiol** (Quantitative) Mae data meintiol yn mesur gwerthoedd neu gyfrif ac maen nhw'n cael eu mynegi ar ffurf rhifau. Mae data meintiol yn ymwneud â newidynnau rhifiadol (er enghraifft: faint neu ba mor aml). | **Meintiol** (Quantitative) Yn ymwneud â data sy’n mesur gwerthoedd neu gyfrifon ac maen nhw'n cael eu mynegi ar ffurf rhifau. Mae data meintiol yn ymwneud â newidynnau rhifiadol (er enghraifft, faint neu ba mor aml). |
| **Adwaith** (Reaction) Proses gemegol lle y bydd sylweddau yn gweithredu o ganlyniad i’w gilydd ac yn cael eu newid i wahanol sylweddau, neu lle y bydd un sylwedd yn newid i sylweddau eraill. | **Adwaith** (Reaction) Proses gemegol lle y bydd sylweddau yn gweithredu o ganlyniad i’w gilydd ac yn cael eu newid i wahanol sylweddau, neu lle y bydd un sylwedd yn newid i sylweddau eraill. |
| **Adweithiau** (Reactions) Proseau cemegol lle y bydd sylweddau yn gweithredu o ganlyniad i’w gilydd ac yn cael eu newid i wahanol sylweddau, neu lle y bydd un sylwedd yn newid i sylweddau eraill. | **Adweithiau** (Reactions) Proseau cemegol lle y bydd sylweddau yn gweithredu o ganlyniad i’w gilydd ac yn cael eu newid i wahanol sylweddau, neu lle y bydd un sylwedd yn newid i sylweddau eraill. |
| **Cilydd** (Reciprocal) Cilydd yw gwrthdro lluosol unrhyw rif, ac eithrio sero. (Nid oes cilydd gan sero.) Er enghraifft, cilydd 3 yw 1/3 a chilydd 2/3 yw 3/2 | **Cilydd** (Reciprocal) Cilydd yw gwrthdro lluosol unrhyw rif, ac eithrio sero. (Nid oes cilydd gan sero.) Er enghraifft, cilydd 3 yw 1/3 a chilydd 2/3 yw 3/2. |
| **Cilyddion** (Reciprocals) Cilyddion yw gwrthdro lluosol unrhyw rif, ac eithrio sero. (Nid oes cilydd gan sero.) Er enghraifft, cilydd 3 yw 1/3 a chilydd 2/3 yw 3/2 | **Cilyddion** (Reciprocals) Cilyddion yw gwrthdro lluosol unrhyw rif, ac eithrio sero. (Nid oes cilydd gan sero.) Er enghraifft, cilydd 3 yw 1/3 a chilydd 2/3 yw 3/2. |
| **Degolion cylchol** (Recurring decimals) Degolyn cylchol yw degolyn sydd â nifer anfeidrol o ddigidau. Enghraifft yw 0.133333333… | **Degolion cylchol** (Recurring decimals) Degolion sydd â nifer diddiwedd o ddigidau. Enghraifft yw 0.133333333… |
| **Cyfeirydd** (Referent) Y gwrthrych, person neu anifail y mae arwydd yn ei gynrychioli. | **Cyfeirydd** (Referent) Y gwrthrych neu beth byw y mae arwydd yn ei gynrychioli. |
| **Cyfeiryddion** (Referents) Y gwrthrychau, pobl neu anifeiliaid y mae arwyddion yn eu cynrychioli. | **Cyfeiryddion** (Referents) Y gwrthrychau neu’r pethau byw y mae arwyddion yn eu cynrychioli. |
| **Rheolaidd** (Regular) Mae ‘rheolaidd’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio polygon sydd ag ochrau hafal ac onglau hafal. | **Rheolaidd** (Regular) Defnyddir hwn i ddisgrifio polygon sydd ag ochrau hafal ac onglau hafal. |

| | |
|---|---|
| **Rheoliadau** (Regulations) math o is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bwerau a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, fel Deddf. | **Rheoliadau** (Regulations) Math o is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bwerau a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol (naill ai Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddf gan y Senedd neu Ddeddf gan Lywodraeth y DU). |
| **Cydberthynas** (Relationship) gall y rhain fod yn gydberthnasau rhyngbersonol neu'n gydberthnasau â'r hunan. Mae cydberthnasau rhyngbersonol yn cyfeirio at y cysylltiadau a'r rhyngweithrediadau rhwng dau unigolyn neu fwy. Mae cydberthnasau â'r hunan yn cyfeirio at y gydberthynas sydd gennych gyda chi'ch hun. Mae cysylltiadau annatod rhwng y ddau fath o gydberthynas ac mae'r rhain yn newid dros amser. Gallan nhw fod yn gydberthnasau teuluol, ysbrydol, rhamantaidd, platonig neu rywiol. | **Cydberthynas** (Relationship) Gall hyn fod yn gydberthnas rhyngbersonol neu'n gydberthnas â'r hunan. Mae cydberthnas rhyngbersonol yn cyfeirio at y cysylltiadau a'r rhyngweithrediadau rhwng dau unigolyn neu fwy. Mae cydberthnas â'r hunan yn cyfeirio at y gydberthynas sydd gennych gyda chi'ch hun. Mae cysylltiadau annatod rhwng y ddau fath o gydberthynas ac mae'r rhain yn newid dros amser. Gallan nhw fod yn gydberthnasau teuluol, ysbrydol, rhamantaidd, platonig neu rywiol. |
| **Cydberthnasau** (Relationships) gall y rhain fod yn gydberthnasau rhyngbersonol neu'n gydberthnasau â'r hunan. Mae cydberthnasau rhyngbersonol yn cyfeirio at y cysylltiadau a'r rhyngweithrediadau rhwng dau unigolyn neu fwy. Mae cydberthnasau â'r hunan yn cyfeirio at y gydberthynas sydd gennych gyda chi'ch hun. Mae cysylltiadau annatod rhwng y ddau fath o gydberthynas ac mae'r rhain yn newid dros amser. Gallan nhw fod yn gydberthnasau teuluol, ysbrydol, rhamantaidd, platonig neu rywiol. | **Cydberthnasau** (Relationships) Gall y rhain fod yn gydberthnasau rhyngbersonol neu'n gydberthnasau â'r hunan. Mae cydberthnasau rhyngbersonol yn cyfeirio at y cysylltiadau a'r rhyngweithrediadau rhwng dau unigolyn neu fwy. Mae cydberthnas â'r hunan yn cyfeirio at y gydberthynas sydd gennych gyda chi'ch hun. Mae cysylltiadau annatod rhwng y ddau fath o gydberthynas ac mae'r rhain yn newid dros amser. Gallan nhw fod yn gydberthnasau teuluol, ysbrydol, rhamantaidd, platonig neu rywiol. |
| **Newid rôl** (Role shift) Mae'r person sy'n arwyddo yn defnyddio gogwydd y corf a mynegiant wyneb I ddynodi gweithredoedd, ymadrodd, meddyliau, teimladau a/neu agwedd cyfeirydd wrth adrodd sgwrs yn cynnwys mwy nag un person neu fod byw arall | **Newid rôl** (Role shift) Mae'r person sy'n arwyddo yn defnyddio gogwydd y corff a mynegiant wyneb i ddynodi gweithredoedd, ymadrodd, meddyliau, teimladau a/neu agwedd cyfeirydd wrth adrodd sgwrs yn cynnwys mwy nag un person neu fod byw arall. |
| **Technegau samplu** (Sampling techniques) Megis dal ac ail-ddal cwadrad, trawslun i roi amcangyfrif o nifer yr organebau o fewn ardal sampl. | **Technegau samplu** (Sampling techniques) Mae'r rhain yn amcangyfrif nifer yr organebau o fewn ardal samplu, megis dal ac ail-ddal cwadrad, trawslun. |
| **Segmentu a chyfuno** (Segment and blend) Segmentu: Torri yn rhannau unigol, fel gwahanu geiriau mewn brawddeg, gwahanu geiriau cyfansawdd, gwahanu sillafau mewn gair neu glywed ffonemau unigol mewn gair; Blendio: Mae blendio'n golygu cyfuno gyda'i gilydd seiniau cyfansoddol neu sillafau o fewn gair. | **Segmentu a chyfuno** (Segment and blend) Segmentu yw torri yn rhannau unigol, fel gwahanu geiriau mewn brawddeg, gwahanu geiriau cyfansawdd, gwahanu sillafau mewn gair neu glywed ffonemau unigol mewn gair; Blendio yw cyfuno seiniau cyfansoddol neu sillafau o fewn gair gyda'i gilydd. |

| | |
|---|---|
| **Hunanymwybyddiaeth** (Self-awareness) Dealltwriaeth ymwybodol o'ch cymeriad, teimladau, cymhellion a dymuniadau. | **Hunanymwybyddiaeth** (Self-awareness) Dealltwriaeth ymwybodol o'ch cymeriad, teimladau, cymhellion a dymuniadau. |
| **Hunanystyried** (Self-reflect) Dysgwyr yn arddangos dealltwriaeth o bwy ydyn nhw, beth yw eu gwerthoedd, a pham y maen nhw'n meddwl, yn teimlo ac yn ymddwyn fel y maen nhw. | **Hunanystyried** (Self-reflect) Pan fydd dysgwyr yn arddangos dealltwriaeth o bwy ydyn nhw, beth yw eu gwerthoedd, a pham y maen nhw'n meddwl, yn teimlo ac yn ymddwyn fel y maen nhw. |
| **Hunanreoli** (Self-regulate) Y gallu i ganolbwyntio sylw, rheoli emosiynau, a rheoli'r meddwl, ymddygiad a theimladau. | **Hunanreoli** (Self-regulate) Canolbwyntio sylw, rheoli emosiynau, a rheoli'r meddwl, ymddygiad a theimladau. |
| **Rhyw** (Sex) caiff ei briodoli ar gyfer unigolyn ar sail nodweddion rhywiol sylfaenol (organau cenhedlu) a swyddogaethau atgenhedlol. | **Rhyw** (Sex) I wahaniaethu rhwng 'rhyw' a 'rhywedd' at ddibenion y canllawiau hyn, mae rhyw yn seiliedig ar ystod o nodweddion gan gynnwys cromosomau, proffiliau hormonaidd ac anatomeg a swyddogaethau cenhedlu (er enghraifft, organau cenhedlu). |
| **Rhywioldeb** (Sexuality) agwedd ganolog ar fodau dynol. Mae'n cynnwys cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaethau a rolau o ran rhywedd, rhyw, atgenhedlu ac agosrwydd. Caiff rhywioldeb ei brofi a'i fynegi drwy feddyliau, credoau, ymddygiadau a chydberthnasau. | **Rhywioldeb** (Sexuality) Agwedd ganolog ar fodau dynol. Mae'n cynnwys cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, atgenhedlu ac agosrwydd. Caiff rhywioldeb ei brofi a'i fynegi drwy feddyliau, credoau, ymddygiadau a chydberthnasau. |
| **Gweithredu'n gymdeithasol** (Social action) Yn ymwneud ag unigolyn neu grŵp o bobl yn cymryd camau bwriadol sy'n arwain at newid, neu y bwriedir iddyn nhw arwain at newid. | **Gweithredu'n gymdeithasol** (Social action) Pan fo unigolyn neu grŵp o bobl yn cymryd camau bwriadol sy'n arwain at newid, neu y bwriedir iddyn nhw arwain at newid. |
| **Dylanwadau cymdeithasol** (Social influences) Unrhyw broses lle y caiff agweddau, barnau, credoau neu ymddygiad person eu newid neu eu rheoli. | **Dylanwadau cymdeithasol** (Social influences) Y ffyrdd y caiff agweddau, barnau, credoau neu ymddygiad unigolyn eu newid neu eu rheoli gan ofynion amgylchedd cymdeithasol. |
| **Sonig** (Sonic) Natur sŵn a chynhyrchu sain. | **Sonig** (Sonic) Yn perthyn i natur sŵn a chynhyrchu sain. |
| **Seinweddau** (Soundscapes) Cyfeirio at amgylchedd acwstig sy'n cynwys synau naturiol (er enghraifft anifeiliaid, tywydd) a synau a grewyd gan bobl (er enghraifft: cerddoriaeth, iaith a sain a grewyd yn fecanyddol). | **Seinweddau** (Soundscapes) Yr amgylchedd acwstig sy'n cynnwys synau naturiol (er enghraifft anifeiliaid a'r tywydd) a synau a grewyd (er enghraifft: cerddoriaeth, iaith, gwaith a sain a grewyd yn fecanyddol). |
| **Ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod** (Sources of wisdom and authority) Ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod yw'r ffynonellau amrywiol y mae pobl yn eu defnyddio wrth geisio deall rhywbeth neu | **Ffynonellau doethineb ac awdurdod** (Sources of wisdom and authority) Y ffynonellau amrywiol y mae pobl yn eu defnyddio wrth geisio deall rhywbeth neu wneud penderfyniadau am beth i'w wneud |

| | |
|---|---|
| wneud penderfyniadau am beth i'w wneud mewn bywyd. Gallai'r rhain gynnwys testunau allweddol, dysgeidiaethau, arweinwyr, ysgolion meddwl, athronwyr, ysgolheigion a gwyddonwyr. | mewn bywyd. Gallai'r rhain gynnwys testunau allweddol, dysgeidiaethau, ffyrdd o feddwl, arweinwyr, athronwyr, ysgolheigion a gwyddonwyr. |
| **Gofod** (Space) Cysyniad haniaethol sy'n cael ei ddiffinio gan batrymau, dosraniadau a chysylltiadau ffenomena. Mae gweithgaredd dynol yn rhoi ystyr i'r rhain. O fewn y dyniaethau, mae gofodau corfforol a gofodau cymdeithasol sydd o gymorth i ni ddeall y cydberthnasau rhwng amgylcheddau, pobloedd, diwylliannau ac economïau sy'n bodoli gyda'i gilydd a thros amser ar y Ddaear. | **Gofod** (Space) Cysyniad haniaethol sy'n cael ei ddiffinio gan batrymau, dosraniadau a chysylltiadau ffenomena. Mae gweithgaredd dynol yn rhoi ystyr i'r rhain. O fewn y dyniaethau, mae gofodau corfforol a gofodau cymdeithasol sydd o gymorth i ni ddeall y cydberthnasau rhwng amgylcheddau, pobloedd, diwylliannau ac economïau sy'n bodoli gyda'i gilydd a thros amser ar y Ddaear. |
| **Berfau gofodol** (Spatial verbs) Berfau sy'n dangos lleoliad y gweithred. | **Berfau gofodol** (Spatial verbs) Berfau sy'n dangos lleoliad y weithred. |
| **Cydberthnasau ysbrydol** (Spiritual relationships) Ymdeimlad o gysylltiad â rhywbeth mwy na ni'n hunain; fel arfer yn gysylltiedig ag ymgais i ddod o hyd i ystyr mewn bywyd. | **Cydberthnasau ysbrydol** (Spiritual relationships) Ymdeimlad o gysylltiad â rhywbeth mwy na ni'n hunain; fel arfer yn gysylltiedig ag ymgais i ddod o hyd i ystyr mewn bywyd. |
| **Ysbrydolrwydd** (Spirituality) Mae ysbrydolrwydd yn ymwneud â'r ysbryd dynol a'r hyn sydd y tu hwnt i'r arferol. Gall greu ystyr a phwrpas mewn bywyd. Gall ysbrydolrwydd gynnwys crefydd, ond nid yw o reidrwydd yn gwneud hynny. Gall datblygiad ysbrydol yn arwain at dwf mewn ymwybyddiaeth o'r hunan mewn perthynas ag eraill, y byd ac, i rai pobl, mewn perthynas â grym uwch neu realiti Eithaf. | **Ysbrydolrwydd** (Spirituality) Mae ysbrydolrwydd yn ymwneud â'r ysbryd dynol a'r hyn sydd y tu hwnt i'r arferol. Gall greu ystyr a phwrpas mewn bywyd. A gall gynnwys crefydd, ond nid yw o reidrwydd yn gwneud hynny. Gall datblygiad ysbrydol arwain at dwf mewn ymwybyddiaeth o'r hunan mewn perthynas ag eraill, y byd ac, i rai pobl, mewn perthynas â grym uwch neu realiti eithaf. |
| **Egwyddor datblygiad cynaladwy** (Sustainable development principle) Ymddwyn mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cyflawni, a hynny heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion nhw. | **Egwyddor datblygiad cynaladwy** (Sustainable development principle) Ymddwyn mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cyflawni, a hynny heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion nhw. |
| **Sefydliad trydydd parti** (Third party organisation) cymdeithas ddysgedig, elusen, menter gymdeithasol, grŵp gwirfoddol neu unigolyn sydd â'r nod o gynorthwyo symudedd cymdeithasol drwy ddarparu gweithgareddau ysbrydoledig. | **Sefydliad trydydd parti** (Third party organisation) Cymdeithas ddysgedig, elusen, menter gymdeithasol, grŵp gwirfoddol neu unigolyn sydd â'r nod o gynorthwyo symudedd cymdeithasol drwy ddarparu gweithgareddau ysbrydoledig. |
| **Offer a thechnegau** (Tools and techniques) Er enghraifft: ystyried cynnyrch sy'n bodoli eisoes, dadadeiladu, eu gwella a'u profi. | **Offer a thechnegau** |

| | |
|---|---|
| | (Tools and techniques) Yr offer neu'r dull a ddewisir i helpu i greu'r cynnyrch a ddymunir. |
| **Amlygu** (Topicalise) Gwneud rhan o'r frawddeg yn fwy amlwg, e.e. "hufen iâ – dwi'n ei garu!' | **Amlygu**<br>(Topicalise) Gwneud rhan o'r frawddeg yn fwy amlwg, er enghraifft, "Hufen iâ – dwi'n ei garu!' |
| **Hyfforddeiaeth** (Traineeship) rhaglen addysg a hyfforddiant sy'n ymgorffori profiad gwaith, gan baratoi pobl ifanc ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol drwy eu helpu i fod yn 'barod am waith'. | **Hyfforddeiaeth** (Traineeship) Rhaglen addysg a hyfforddiant sy'n ymgorffori profiad gwaith, gan baratoi pobl ifanc ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol drwy eu helpu i fod yn 'barod am waith'. |
| **Trawsieithu** (Translanguaging) Arfer addysgeg yw trawsieithu sy'n golygu symud rhwng dwy iaith ar gyfer mewnbwn ac allbwn yn yr un gweithgaredd. Mae'r dysgwr yn derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yn gweithio gyda'r wybodaeth honno mewn iaith arall. | **Trawsieithu** (Translanguaging) Arfer addysgeg sy'n golygu symud rhwng dwy iaith ar gyfer mewnbwn ac allbwn yn yr un gweithgaredd. Mae'r dysgwr yn derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yn gweithio gyda'r wybodaeth honno mewn iaith arall. |
| **Ardrawslin** (Transversal) Mae ardrawslin yn llinell sy'n croesi dwy linell arall. | **Ardrawslin** (Transversal) Llinell sy'n croesi dwy linell arall. |
| **Tonnau ardraws**<br>(Transverse waves) Tonnau lle mae'r dirgryniadau ar onglau sgwâr i gyfeiriad teithio'r don, e.e. tonnau golau. | **Tonnau ardraws**<br>(Transverse waves) Tonnau lle mae'r dirgryniadau ar onglau sgwâr i gyfeiriad teithio'r don, er enghraifft, tonnau golau. |
| **Ffracsiynau unedol** (Unit fractions)<br>Ffracsiynau ble mae'r rhifiadur yn 1 | **Ffracsiynau unedol** (Unit fractions)<br>Ffracsiynau lle mae'r rhifiadur yn 1. |
| **Newidyn** (Variable) Mae newidyn yn symbol neu lythyren sy'n cynrychioli gwerth anhysbys, neu'n cynrychioli gwerth sy'n newid. | **Newidyn** (Variable) Symbol neu lythyren sy'n cynrychioli gwerth anhysbys, neu'n cynrychioli gwerth sy'n newid. |
| **Newidynnau** (Variables) Symbolau neu lythrennau sy'n cynrychioli gwerthoedd anhysbys, neu'n cynrychioli gwerthoedd sy'n newid. | **Newidynnau** (Variables) Symbolau neu lythrennau sy'n cynrychioli gwerthoedd anhysbys, neu'n cynrychioli gwerthoedd sy'n newid. |
| **Ugeiniol** (Vigesimal) Yn draddodiadol roedd y system rhifau yn Gymraeg, fel gydag ieithoedd Celtaidd eraill a rhai ieithoedd Ewropeaidd, yn defnyddio sail o 20 yn hytrach na'r sail fwy cyffredin o 10. Er enghraifft, yn y system ugeiniol cyfeiriwyd at 14 fel pedwar ar ddeg (4+10), ond fel un deg pedwar (10+4) yn ddegol. Hefyd deugain (2x20) yw 40 yn ugeiniol ond pedwar deg (4x10) yn ddegol. | **Ugeiniol**<br>(Vigesimal) Yn draddodiadol roedd y system rhifau yn Gymraeg, fel gydag ieithoedd Celtaidd eraill a rhai ieithoedd Ewropeaidd, yn defnyddio sail o 20 yn hytrach na'r sail fwy cyffredin o 10. Er enghraifft, yn y system ugeiniol cyfeiriwyd at 14 fel pedwar ar ddeg (4+10), ond fel un deg pedwar (10+4) yn ddegol. Hefyd deugain (2x20) yw 40 yn ugeiniol ond pedwar deg (4x10) yn ddegol. |
| **Cydberthynas rhithwir** (Virtual relationship)<br>Perthynas rhwng pobl ar-lein ac, mewn llawer | **Cydberthynas rithwir** (Virtual relationship)<br>Perthynas rhwng pobl ar-lein ac, mewn llawer |

| | |
|---|---|
| o achosion, sydd ond yn adnabod ei gilydd drwy'r rhyngrwyd. | o achosion, sydd ond yn adnabod ei gilydd drwy'r rhyngrwyd. |
| **Llythrennedd gweledol** (Visual literacy) Y gallu i gyfathrebu syniadau ar ffurf weledol, e.e. drwy dynnu llun, braslunio, rendro, cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur. | **Llythrennedd gweledol** (Visual literacy) Y gallu i gyfathrebu syniadau ar ffurf weledol, er enghraifft drwy dynnu llun, braslunio, rendro, a chynllunio gyda chymorth cyfrifiadur. |
| **Iaith y llygaid** (visual vernacular) Techneg theatr gorfforol unigryw yn cyfuno Iaith arwyddion ac ystum ar gyfer effaith artistig a barddonol sy'n cael ei pherffomio yn bennaf gan artistiaid Byddar. | **Iaith y llygaid** (Visual vernacular) Techneg theatr gorfforol unigryw yn cyfuno Iaith arwyddion ac ystum ar gyfer effaith artistig a barddonol sy'n cael ei pherffomio yn bennaf gan artistiaid Byddar. |
| **Cymraeg fel iaith ychwanegol (CIY)** (Welsh as an additional language (WAL)) Yn cyfeirio at ddysgu ac addysgu Cymraeg pan nad Cymraeg na Saesneg yw mamiaith y dysgwr. | **Cymraeg fel Iaith Ychwanegol (WAL)** (Welsh as an additional language (WAL)) Dysgu ac addysgu Cymraeg pan nad Cymraeg na Saesneg yw mamiaith y dysgwr. |
| **Dosbarthyddion endid cyfan** (Whole entity classifiers) Yn cynrychioli gwrthrych cyfan megis person yn sefyll, llyfr, anifail neu ddarn o bapur. | **Ffenomena tonnau** (Wave phenomena) Er enghraifft: goleuni, tywyllwch, cysgodion, adlewyrchiadau, dirgryniadau, sain. |
| **Cymraeg fel iaith ychwanegol (CIY)** (Welsh as an additional language (WAL)) Yn cyfeirio at ddysgu ac addysgu Cymraeg pan nad Cymraeg na Saesneg yw mamiaith y dysgwr. | **Cymraeg fel iaith ychwanegol** (Welsh as an additional language ) Dysgu ac addysgu Cymraeg pan nad Cymraeg na Saesneg yw mamiaith y dysgwr. |
| **Dosbarthyddion endid cyfan** (Whole entity classifiers) Yn cynrychioli gwrthrych cyfan megis person yn sefyll, llyfr, anifail neu ddarn o bapur. | **Dosbarthyddion endid cyfan** (Whole entity classifiers) Mae'r rhain yn cynrychioli gwrthrych cyfan megis person yn sefyll, llyfr, anifail neu ddarn o bapur. |
| **Rhif cyfan** (Whole number) Mae'r rhifau 0, 1, 2, 3, 4, ac yn y blaen yn rhifau cyfan. Maen nhw'n debyg i gyfanrifau, ond nid yw rhifau cyfan yn cynnwys rhifau negatif. Nid yw rhifau cyfan â darnau ffracsiynol neu ddegolion dros ben. | **Rhif cyfan** (Whole number) Mae'r rhifau 0, 1, 2, 3, 4, ac yn y blaen yn rhifau cyfan. Maen nhw'n debyg i gyfanrifau, ond nid ydyn nhw'n cynnwys rhifau negatif. Nid yw rhifau cyfan â darnau ffracsiynol neu ddegolion dros ben. |
| **Rhifau cyfan** (Whole numbers) Mae'r rhifau 0, 1, 2, 3, 4, ac yn y blaen yn rhifau cyfan. Maen nhw'n debyg i gyfanrifau, ond nid yw rhifau cyfan yn cynnwys rhifau negatif. Nid yw rhifau cyfan â darnau ffracsiynol neu ddegolion dros ben. | **Rhifau cyfan** (Whole numbers) Mae'r rhifau 0, 1, 2, 3, 4, ac yn y blaen yn rhifau cyfan. Maen nhw'n debyg i gyfanrifau, ond nid ydyn nhw'n cynnwys rhifau negatif. Nid yw rhifau cyfan â darnau ffracsiynol neu ddegolion dros ben. |
| **Dull ysgol gyfan** (Whole-school approach) proses effeithiol o gysylltu pob elfen o gwricwlwm, polisïau, staff, cymuned, gwasanaethau ac amgylchedd ysgol. Mae'n annog y broses o gyfleu ac atgyfnerthu ethos cadarnhaol cyson ac yn cynnig cymorth cyfannol o ansawdd uchel i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys sut mae addysg | **Dull ysgol gyfan** (Whole-school approach) Proses effeithiol o gysylltu pob elfen o gwricwlwm, polisïau, staff, cymuned, gwasanaethau ac amgylchedd ysgol. Mae'n annog cyfleu ac atgyfnerthu ethos cadarnhaol cyson ac yn cynnig cymorth cyfannol o ansawdd uchel i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys sut mae addysg cydberthynas a |

| | |
|---|---|
| cydberthynas a rhywioldeb yn rhan o'r dull gweithredu mewn perthynas ag iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol. | rhywioldeb yn rhan o'r dull gweithredu mewn perthynas ag iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol. |
| **Profiad cysylltiedig â byd Gwaith** (Work-related experience) darparu cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o waith ac ennill sgiliau cyflogadwyedd drwy brofiadau uniongyrchol o waith. | **Profiad cysylltiedig â byd Gwaith** (Work-related experience) Darparu cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o waith ac ennill sgiliau cyflogadwyedd drwy brofiadau uniongyrchol o waith. |
| **Bydolwg** (World view) Athroniaeth benodol bywyd neu gysyniad y byd. Yn y Dyniaethau, gall bydolygon gynnwys athroniaethau hanesyddol, gwleidyddol a chymdeithasol, yn ogystal â bydolygon crefyddol ac anghrefyddol. Gall bydolygon fod yn sefydliadol neu’n bersonol. Gall ffordd unigolyn o ddeall a byw yn y byd ei hun dynnu oddi ar un neu fwy o fydolygon sefydliadol. | **Bydolwg** (World view) Athroniaeth benodol bywyd neu gysyniad y byd. Yn y Maes Dyniaethau, gall bydolygon gynnwys athroniaethau hanesyddol, gwleidyddol a chymdeithasol, yn ogystal â bydolygon crefyddol ac anghrefyddol. Gall bydolygon fod yn sefydliadol neu’n bersonol. Gall ffordd unigolyn o ddeall a byw yn y byd ei hun dynnu oddi ar un neu fwy o fydolygon sefydliadol, neu beidio â thynnu oddi wrthyn nhw. |
| **Bydolygon** (Worldviews) Athroniaeth benodol bywyd neu gysyniad y byd. Yn y dyniaethau, gall bydolygon gynnwys athroniaethau hanesyddol, gwleidyddol a chymdeithasol, yn ogystal â bydolygon crefyddol ac anghrefyddol. Gall bydolygon fod yn sefydliadol neu’n bersonol. Gall ffordd unigolyn o ddeall a byw yn y byd ei hun dynnu oddi ar un neu fwy o fydolygon sefydliadol. | **Bydolygon** (Worldviews) Mae bydolwg yn athroniaeth benodol ar fywyd neu’n gysyniad o’r byd. Yn y dyniaethau, gall bydolygon gynnwys athroniaethau hanesyddol, gwleidyddol a chymdeithasol, yn ogystal â bydolygon crefyddol ac anghrefyddol. Gall bydolygon fod yn sefydliadol neu’n bersonol. Gall ffordd unigolyn o ddeall a byw yn y byd ei hun dynnu oddi ar un neu fwy o fydolygon sefydliadol. |

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1** – I ba raddau ydych chi’n cytuno bod y newidiadau arfaethedig hyn i ganllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn ddefnyddiol?

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i ymateb i'r cwestiwn uchod.

# Diweddaru adrannau o ganllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 20 Rhagfyr i:

Y Tîm Cyflawni Polisi
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y newidiadau arfaethedig i ganllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn ddefnyddiol?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Nodwch yma os gwelwch yn dda pa wybodaeth neu gymorth ychwanegol ar gyfer canllawiau'r fframwaith fyddai'n ddefnyddiol.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2** – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol yr adran Ymlaen â'r daith hon o ganllawiau y Cwricwlwm i Gymru ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3** – A fyddai modd i'r newidiadau arfaethedig hyn i ganllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru gael eu ffurfio neu eu haddasu er mwyn sicrhau:

- eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg
- nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

| |
|---|
| |

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐